



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD


This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:


<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.





UNDEB YR EGLWYS,
GYDA
MYFYRION DYDDANOL
GAN
AP IEUAN.



28915.

f. 8.





**Andeb yr Eglwys yn ngolwg ei
Gwynfyd Dyfodol.**

GYDA

Ayfyrion Dyddanol.

UNDEB YR EGLWYS

YN

NGOLWG EI GWYNFYD DYFODOL,

GYDA

Myfyrion Dyddanol

AR

DESTYNAU YMARFEROL ERAILL.

GAN

EVAN EVANS

(AP IEUAN).


DOLGELLAU:

ARGRAFFWYD GAN D. H. JONES, SWYDDFA'R 'GOLEUAD.'



Llawen yw yr awen rydd,
A doniawg ei hadenydd :
Yr adlais yn ei llais llon
Ddiddana fyrdd o ddynion.
Diddanaf yn haf ein hoes
Diddanwch diwedd einioes.

Mawrth, 1876.



C Y N W Y S I A D .



Angor y Cristion	-	-	-	-	34
Anogaeth i beidio cwyno yn erbyn y byd	-	-	-	-	65
“ Band of Hope ”	-	-	-	-	45
Blodion y Beddau	-	-	-	-	82
Boddlonrwydd	-	-	-	-	54
Canu	-	-	-	-	69
Canig y Famaeth	-	-	-	-	72
Calanmai	-	-	-	-	30
Colli y ffordd, a pharhad yr alwad	-	-	-	-	56
Crist ynoch, gobaith y gogoniant	-	-	-	-	35
Cydwybod pechod	-	-	-	-	53
Dafydd Llwyd	-	-	-	-	74
Dic Sion Dafydd eto	-	-	-	-	37
Dic Sion Dafydd	-	-	-	-	63
Duw, Cariad yw	-	-	-	-	21
Englynion Priodas	-	-	-	-	78
Fmyn Filwrol	-	-	-	-	94
Erie	-	-	-	-	76
Englynion i'r Ysgol Frytanaidd	-	-	-	-	36
Fy Wyrion	-	-	-	-	70

viii

Ffydd a gynal y gwan	-	-	-	-	88
Galareb yr Hen Wydd	.	-	-	-	62
Glyn Cysgod Angeu	-	-	-	-	92
Gobaith a Mwynhad	-	-	.		29
Ieuan Eliot	-	-	-	-	76
Ivan Llywelyn	-	-	-	-	75
I gyfaill a arferai yfed y Gwlybyron Meddwol	-			-	48
Lladdiad y Ceiliog, a Sen i'r gwas diog	-		-		50
Marw i Fyw	-	-	-	-	55
Marw i bechod ac Adgyfodiad bywyd	-		-	-	93
Myfyrion Diddanol	-	-	-	-	27
Myfanwy Wynona	-	-	-	-	75
Ofnau yn diflanu, a ffydd yn gorchfygu	-			-	23
Pa beth sydd mewn Enw	-	-	-	-	33
Paham na chadwaf y dydd ympryd	-		-	-	60
Penderfyniad Anymddibynol	-	-	-	-	54
Rhagymadrodd	-		-	-	xi—xvi
Rheolau Ymarferol er Cadwraeth Iechyd	-			-	28
Rhesymoldeb Gair Duw	-	-	-	-	59
Rhwyd y Dafarn	-	-	-	-	46
Rhwymyn Priodas	-	-	-	-	77
Rhwystrau yn Diflanu	-	-	-	-	93
Thomas Vincent	-	-	-	-	76
The Happy Landing	-	-	-	-	94
The Dying Christian	-	-	-	-	95
Teimlad Cristion	-	-	-	-	95

Towyn Meirionydd	-	-	-	-	51
Towena	-	-	-	-	77
Torf o Ddychweledigion	-	-	-	-	91
Undeb yr Eglwys	-	-	-	-	1
Walter Caradoc	-	-	-	-	77
Y Bardd yn glaf (dydd pen ei flwydd, &c.)	-	-	-	-	57
Y Beibl	-	-	-	-	39
Y Bedd	-	-	-	-	79
Y Bywyd Newydd	-	-	-	-	88
Y Bedd a Nos	-	-	-	-	90
Y Beibl	-	-	-	-	92
Y Ceiliog	-	-	-	-	49
Y Cysegr	-	-	-	-	17
Y Carchar	-	-	-	-	73
Y Cyntaf a'r ail	-	-	-	-	32
Y Cysur olaf	-	-	-	-	96
Y Dyn Hunanol	-	-	-	-	48
Y Dyn Pechod	-	-	-	-	40
Y Diodydd Meddwol	-	-	-	-	41
Y Ddioid Oreu	-	-	-	-	46
Y Ddioden Feddwol	-	-	-	-	47
Y Fordaith Olaf	-	-	-	-	34
Y Gwely yn galed	-	-	-	-	52
Y Gog	-	-	-	-	31
Y Geni Drachefn	-	-	-	-	92
Y Glaniad Dedwydd	-	-	-	-	94
Y Llong	-	-	-	-	33
Y Waredigaeth rhag boddi	-	-	-	-	57

æ

Y Wyddor	.	-	-	-	-	-	37
Yr Adferiad	.	-	-	-	-	-	58
Yr Adenedigaeth	.	-	-	-	-	-	93
Yr Ardystiad Dirwestol	.	-	-	-	-	-	43
Yr Ysgol Frytanaid	.	-	-	-	-	-	35

R H A G A R W E I N I A D.

(GAN FAB AP IEUAN).



YN y Gwanwyn diweddaf cyflwynodd fy nhad yr oll o'i gyfansoddiadau i mi, gyda'i ddymuniad i mi edrych drostynt, ag ethol y rhai a ewyllysiwn eu cyhoeddi. Cynwysa y gyfrol fechan hon emau barddonol a roddant, mi hyderaf, fudd a mwyniant i bawb a'i darlleno.

Cyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r rhai hyn yn ystod y deng mlynedd diweddaf, ac *wedi i fy nhad gollu ei olwg*: ond y mae y cynganeddion yn gywir, ac yn llawn clyzni addurnol, dan ba anfantais bynag y cyfansoddwyd hwynt. Os canfydda y darllenydd ambell lithriad damweiniol, dymuna yr awdwr ddweyd yn ngeiriau Bardd Nantglyn:—

“Deoled y da olwg
A'i bin y gwall heb un gŵg.”

Bydd pawb a gaffont ddyddordeb yn narlleniad y llyfr hwn yn ddyledus i'n cyfeillion, Mr. EVAN MORGAN

JONES, a Mr. J MAETHLON JAMES, Towyn, am mai hwy a roddasant fwyaf o gymorth i'r awdwr yn ysgrifeniad y cyfansoddiadau ar ol iddo fethu gweled ei ysgrifen ei hun.

I'r Parchedig EVAN JONES, Caernarfon, yr ydym yn ddyledus am ei garedigrwydd yn golygu y lleni ar eu cyflwyniad i'r wasg. Yr oedd Mr. JONES pan yn llenor ieuanc yn ddisgybl i AP IEUAN mewn llenyddiaeth; yn hyn dywedai ei athraw ei fod yn cymeryd ei ddysg yn dda; ac hefyd yn yr ohebiaeth a ganlynai, daeth i wybyddiaeth fanwl o allanolion mwyaf dymunol barddoniaeth ein cenedl, yn yr hyn tybir fod mwy o gywreinrwydd addurniadol nag y sydd yn perthyn i farddoniaeth unrhyw genedl arall. Hynyna, gyda bod y ddau yn arfer yr un orgraff yn ysgrifeniad y Gymraeg, a ddengys nad oedd neb cymhwysach i'r gorchwyl nag ef.

Dyma restr o enwau llenyddol (nid ffugiol) dan barai yr ysgrifennai fy nhad yn ngwahanol gyhoeddiadau y Dywysogaeth. Buasai yn fwy adnabyddus, pe buasai hyd ei oes wedi dal at un, yn lle defnyddio cymaint o wahanol enwau. Ni ysgrifennodd efe erioed dan enw ffug, yn erbyn un a ysgrifennai yn ei enw adnabyddus, am y barnai hyny yn annheg: — Ifan Ifans, Crug Durawl, Ieuan Glantwynwy, Ieuan Ebrill, Amaethydd, Awenydd y Wawr, Bardd y Boreu, Mab Tangnefedd, Gwynheddon Ap Ieuan, Bardd y Waun, E. E., E. E. Ap Ieuan, Ap Ieuan.

Os teg cyfrif oes gŵr wrth ei oriau effro, heb gymeryd ei oriau cwsg i mewn, gellid dweyd am dano iddo

fyw oes llawer o'i gymydogion o gylch ddwy waith drosodd cyn bod yn 70 mlwydd oed: ac yn yr ystyr yma y mae "*Awenydd y Wawr*," a "*Bardd y Boreu*," yn gymhwysiadol iawn.

Ni phrofodd AP IEUAN ddiiod feddwol er's tua 40 mlynedd yn ol. Yr oedd ef yn un o'r rhai cyntaf i ardystio *llwrymwrthodiad*. Ni fwynhaodd neb well iechyd nag ef wedi hyny, hyd oni chafodd salwch trwm, o effaith oerfel, rai blynyddau yn ol, o ba un ni esgorodd yn llwyr. Oni bai ei fod yn ddirwestwr trwyadl, credaf na buasai fyw i gyfansoddi rhai o'r caneuon mwyaf nefolaidd yn y gyfrol.

Dengys ei wedd tuag at y ddiiod feddwol ei gymeriad unffurfiol yn ngwyneb pob peth a farnai efe eu bod yn ddrygionus, neu o duedd niweidiol, pa un bynag ai yn yr eglwys ai ynte yn y wladwriaeth y cyfarfyddai â hwynt. PROTESTANT ydyw drwyddo. *Protestia* yn erbyn pob ffug a thwyll ymha le bynag y canfydda efe hwynt. Dilyna "Y gwir yn erbyn y byd." Ond ni bu neb erioed a chalon fwy tyner tuag at y rhai na chyd-welent âg ef, tra y dangosent ddifrifoldeb a pharch i'r gwirionedd. Nid oes gan neb fwy o ysbryd "chwareu teg" nag ef, ac ni ddadleuodd efe erioed er mympwy buddugoliaeth, ond bob amser er mwyn chwalu y cymylau a orchuddient wirionedd y pwnc. Modd diogel i enill ei ymddiried yw dweyd wrtho yn ddifrifol a digellwair pan y tybir ei fod yn camsynied.

PROTEST ydyw rhan fawr o'r gyfrol yma, yn erbyn ymorphwyso ar unrhyw ffurf o addoliad, neu ar restr o

gredoau, yn lle rhoddi i dduwioldeb ryddid i ymled-
aenu a chryfhau yn ymarferiad cariad a gwirionedd. Y
mae yn angenrhaid, er mwyn trefn, i bob cynulleidfa
gydnabod rhyw unffurf o addoliad cyhoeddus: ac y
mae cyffes o grede yn ofynol, er mwyn disgyblaeth: er
hyny, nid ydynt (y ffurfiau a'r cyffesion) ond mesurau
caethion ar y goreu, a ddangosant agwedd a natur
bresenol crefydd y rhai a'u harfero. Y mae crefydd
yn rhy gyffredin yn cael ei harddel fel yn un â duwiol-
deb. Nid yw y grefydd oreu ond gwisg duwioldeb.
Yr wyf yn cofio pan yn ymdrochi unwaith i fy nghi bach
ffyddlawm ddychryn wrth fy ngweled yn noeth, a
rhedeg i ffwrdd gan gyfarth yn wylofus. Adnabyddodd
fy llais, a safodd gyferbyn, ond ni ddaeth ataf hyd oni
ymwisgais. Felly y mae llawer dyn na chydnebydd
dduwioldeb oni bydd wedi ymwisgo â'r grefydd ymar-
ferol iddo ei hun. Nid newid ei dduwioldeb a ddarfu
LUTHER, ond ei grefydd. Y mae duwioldeb yn elfen
fywiol mewn dyn, a ymeanga yn gydradd â chorff ei
wybodaeth, a'i ddealltwriaeth o Air Duw (naturiol a
datguddiadol) ac a dreiddia drwy ei holl ymarweddiad.
Sefydledig ydyw pethau meirwon. "I'r neb a fo yn
nghymdeithas y rhai byw oll y mae gobaith, canys
gwell ydyw ci byw, na llew maw." (Pregeth. ix. 14).
Dywed yr Apostol (2 Petr iii. 15)—"Eithr CYNYDDWCH
mewn gras a gwybodaeth ein HARGLWYDD IESU GRIST."
Y neb a gyfynga ei wybodaeth o DDUW i unrhyw gyffes
ymarferol, neu ei ddull o addoli i unrhyw ffurf sefyd-
ledig, sydd yn debyg i ddyn ieuanc a wisga arfwisg ei dad
nos a dydd, i'r diben o gyfyngu ei gorff rhag prifio yn
fwy na'i dad! Y mae merched China yn gwisgo es-

gidiau haiarn i rwystro eu traed brifio yn fwy na thraed eu mamau, yn ol arfer sefydledig eu gwlad, a golygant draed rhianod Cymry yn wrthun ryfeddol, er eu bod o lun naturiol, a diystyrant gerddediad “morwynion glân Meirionydd.” Maglau am draed duwioldeb ydyw y credoau, a’r cyffesion, a’r ffurfiau oll, *pan y sefydlir hwynt fel rhwymau cloedig*, ac y mae duwioldeb yn cloffi ac yn marweiddio o danynt. Hanes pob gwir adfywiad Cristionogol ydyw toriad rhwymau, fel yn amser LUTHER, CALFIN, WESLEY, &c. Daeth y gelyn â rhwymau newyddion dan rith rhyddid wedi hyny : goreurodd y tresi, rhanodd yr eglwys yn ddarnau, ac aeth pob darn i ymfalchio yn ei chadwyni ei hun—hônai y naill fod ei chadwyn hi yn fwy euraidd na’r llall. Ond er y cyfan, er carcharu duwioldeb, nid marw o gwbl ydyw, ac y mae arwyddion fod yr ysbryd yn ymysgwyd—y sectau yn ymryddhau drachefn, ac yn ymuno i wrthwynebu pob cadwen, ond cadwen cariad Cristionogol. *O’r drwg y mae pob peth o rwystra i un Cristion weled arlun o Grist ymhob Cristion arall*, ac i’w caru yn ol cywirdeb yr arlun, pa wedd bynag yr addolant, a pha gyffes bynag y credant ynddi. Pob Cristion a gâr wirionedd ; ond yn y byd yma nid oes yr un Cristion yn gwybod *pob* gwirionedd. Nid perffaith neb ; ac os nid perffaith un, nid perffaith llawer, nid perffaith cynulleidfa o rai amherffaith,—ac nid perffaith eglwys. Mae gan bob dyn a phob cynulleidfa o ddynion lawn digon o amherffeithdra ynddynt eu hunain, heb chwilio am amherffeithdra yn eraill. Ond odid lle mae un yn wan mae arall yn gryf, a gwell fyddai i’r eglwysi ymbleseru yn rhagoriaeth eu gilydd,

efelychu yr hyn a wêl y naill o GRIST yn y llall. "Profi pob peth, a dal yr hyn sydd dda:" dangos yn garedig y rheswm dros farnu yr hyn sydd ddrwg.

Fe welodd rhai o ddisgyblion cyntaf Iesu rywun yn bwrw allan gythreuliaid yn enw yr Iesu, ond yn lle gorfoleddu yn ymadawriad yr ysbrydion aflan, hwy a waharddasant y neb a'u bwriant allan! Paham? Wel dyma eu rheswm, "*am nad yw yn ein dilyn ni.*" Gwell oedd ganddynt i gythreuliaid aros mewn dynion na'u bwrw allan *yn enw yr Iesu* gan un nad oedd yn *eu dilyn hwy!* Y mae llawer disgybl yn Nghymru o'r un ysbryd heddyw, yn canlyn Crist heb ei adnabod. Ar ol i'r disgyblion cyntaf adnabod Crist, yr oeddynt yn llawenhau fod Crist yn cael ei bregethu, pa un bynag "ai mewn rhith ai mewn gwirionedd" y gwnelid hyny. Gwêl Marc ix, 38, &c.; Luc ix. 49, &c., a Philip. i. 18. Diflana y "*Ni*" pan adnabyddom Iesu.

Dymuniad dwysaf calon fy nhad ydyw ar fod i'r llyfr hwn fod yn gymhorth i lawer o ddisgyblion Iesu i weled eu Harglwydd yn fwy eglur nag erioed, fel y caffont nerth i edrych yn hyderus yn ngwyneb ein Tad Nefol, a llawenhau yn ei wasanaeth, wedi iddynt ymryddhau oddiwrth rwydau swynol dynion.

GRIFFITH EVANS.

Camp Curragh, Calan, 1876.

A w d l

UNDEB YR EGLWYS.



Y RHAGARWEINIAD.

SAIL undeb yr Eglwys Gristionogol yw Undod y Duwdod. Yn Nghrist y mae yr holl aelodau yn cydgyfarfod mewn undeb ffydd. Un efengyl, un ffydd, ac un bedydd y sydd : ac er bod ymbleidiaeth sectyddol wedi dirfawr niweidio yr eglwys, eto, gan fod sail ei hundeb yr hyn ydyw, a chan mai un yw hi i fod, a'r gwirionedd yn anorchfygol, daw eilwaith i fwynhau ei hundeb gogoneddus cyntefig, pryd na bydd yn cael ei blino gan bleidiau, cynhenau, nac ymrysonau. Tynir ymaith y drain a'r mieri o'i phalasu ; gwirionedd a dardda o'r ddaear ; daw pawb i oddef eu gilydd mewn cariad ; bwrir ysbryd y cyfeiliorni allan o ddyoniou ; derfydd rhyfeloedd crefyddol ; bydd heddwch o fewn rhagfuriau Sion, a ffyniant yn ei phalasu. Ni fydd Canaanead mwyach yn nhŷ yr Arglwydd, ac nid ä dieithriaid trwyddo mwyach (Joel iii. 17); ac enw y ddinas o'r dydd hwnw allan fydd *Jehofah Sammah*, sef YR ARGLWYDD SYDD YNO (Ezekiel xlviii. 35).

Bydded gan bob Cristion ffydd i weddio ar i'r cyfnod dedwydd a gogoneddus hwn wawrio yn fuan, pryd y byddo heddwch ac undeb, yn mha ffurf bynag, yn llinell ddisglaer trwy holl weithrediadau pawb. ac y byddo gweddi Pen yr Eglwys (Ioan xvii. 20, 21), wedi cael ei hateb yn llawn. Hyn ydyw dymuniad didwyll,

YR AWDWR.

TOWYN MEIRIONYDD,
Alban Eilir, 1875.

O.Y.—Ychydig fesurau a ddefnyddiwyd yn yr Awdl—y rhai mwyaf arferol—gan ofalu cyfnewid y rhai hynny yn ddigon aml i gadw y darlenniad yn ddiffin a boddhaol.

YR AWDL.

Erchylldra eithafol cyflwr y byd annychweledig yn galw am undeb nerthol daear a nef i'w achub.

Daear ddilafar ddylefa,—ond dyn
Yn ei dwyll ymsudda;
Ar ol ei gamwedd yr â,
Am ei gellwair ymgolla !

Ni ddaw yn ol yn nawdd neb,
Dyheria bob dihareb !
Trwy y niwl, ow, try ei naid
I athrolyn cythreuliaid !

I waered, gwaered, y gwyra,—gwaelod
Diwaelod a wela,
I ddiwedd diddiwedd â,
A'i holl daith a felldithia !

Am anwiredd mae 'n eiriol,
 Gad yr iawn i gyd ar ol,
 Gweini gwae, a gwanu gwir,
 Yw dawn ei enaid anwir.

Myn'd i'r Farn a'i fai arno—y mae 'r dyn,
 A môr dinystr dano !
 Angel o'r nef ddolefo
 Uwch ei ben i'w achub o !

YR ANGHYDFOD.—*Yr Eglwys, yn lle aros yn nerth ei hundeb yn ol dymuniad ei Phen-sylfaenydd (Ioan xvii. 21), yn ymddyrysu ac ymddarnio o dan gynifer o reolau gwrthwynebol, ac telly ei galwad ar y byd yn aneffeithiol.*

Blodau y ffydd ymbleidiol—anurddent
 Hen erddi Crist'nogol!
 'E godai pla rhwygiadol,—
 Gallu Naf a'i gwella 'n ol.

Trawsedd y deddfau treisiol,—ymlid hedd,
 Teimlad da a brawdol ;
 Mae 'r nodau mor niweidiol,—
 Gair y Nef a'i gyr yn ol.

Hynodion ein henwadau,—a'u cysur,
 Yw ceisio rhwymynau
 O gyffesion gweigion gau,
 Yn sothach am eu saethau.

Saethau y Gair, heb sothach—o ddeddfau
 Dan enwau dynionach,
 Dywysent deimlad dwysach
 Ar ran Duw i'r enaid iach.

Iach ydyw y pechadur,—wâg obaith,
 Cyn gwybod ei natur ;
 Goreu peth yw y Gair pur
 Iddo weled ei ddolur.

Gwae a ellwch gau allan—un a gred
 Yn Nuw gras ei hunan ;
 Er 'sbelio rhyw Sibbolan,
 Sofl a gwellt yw 'ch safle gwan !

Gwneyd "*credo*," dwbio diball,
 A duo lliw da y llall !
 Cnawd yw y cais, llais, a llun,
 Nod a gwarth enaid gwrthun.

Duw er hyn a fyn ei fawl
 Yn ei ddiwrnod addurnawl.

Yr Eglwys yn ngogoniant ei HUNDEB.

Yn ein cariad mae 'n coron,—Duw y gras
 Ydyw grym ein safon ;
 Ac er helynt cwerylon
 Mae tangnef y Nef yn hon.

Sion Duw sy' yn dawel,
 Cred y saif cariad a'i sel;
 Ni ddaw elw o ddialedd,
 Na chlod o belen a chledd ;
 Pob gwg, meddwl drwg, a dry
 Yn yr wybren arw obry.
 Gwelwch sut, o gylch Satan,
 Offeryn dig a'i ffwrn dân.
 Cynllun Nef yw tangnefedd,
 A mwynhau emynau hedd.
 Diflana dieifl i anwn,
 A gras a deyrnasa 'n grwn.
 Duw a wnel na ddychwelant,
 I rwydo a blino 'i blant.

Un yw 'n tŷ yn Iawn ein Tad,—Gair ein Duw
 Geir yn dyst o'r trefniad :
 Yma yn hwn mae mwynhad,
 Yn rhagor ni wneir rhwygiad.

Ei wir agwedd ni rwygwn,
 Adail o hedd yw delw hwn ;
 Ac, medd rhinwedd yr Iawn-waed,
 Cyfanwaith yw gwaith y gwaed,
 A delw cyfenw cyfanwaith
 Cywir, welir ar ei waith.

Fel ein tŷ, o fawl i'n Tad,
 Yn ei ras gwnawn arosiad ;
 Ei ras Ef a roes safon

A gloew sedd i'r Eglwys hon ;
 Mynydd yw mewn addewid—
 Uchel, a lle i ochel llid ;
 Uchel fydd ein mynydd mwy,
 Goleuedig, gweladwy ;
 Iach dir yr iechydwrriaeth.
 Fal y llif o fêl a llaeth !
 Ni ddaw haint i'r mynydd hwn,
 A nos galar nis gwelwn :
 Gorsedd Nef yma hefyd,
 Sydd ben gorseddau y byd ;
 Moli 'r Ion am ei aml ras,
 Dim darnio—dyma deyrnas !

A gais Ion yw 'n gwasanaeth,—nid ei dŷ
 Ydyw dawn saerniaeth ;
 Lle i ddal llyw addoliaeth,*
 Eiddo dyn, o Dduw y daeth.*

O Dduw y daeth eiddo dyn,—
 O lety y tylotyn
 I balas dihelbulon
 A llys y Tywysog llon :
 O Dduw y daeth eiddo dyn,—
 Odd y llwydaidd ddilledyn
 I aml leni melynaur
 Gwron uwch, a'i goron aur !
 Diddadl, ein anadl einioes,

*Lle cyfleus i addoli wrth drefn.

Daw ei grym o waed y groes.
 A gafwyd rhoddwyd i'n rhan
 O'i ddaioni Dduw anian,—
 Duw y nef ydyw hefyd,
 A Duw 'n ben da iawn y byd.
 Dyma ein nawdd—EI DY Y'M NI!
 Mwy ddylem ei addoli.

Gorphenwyd gwir hoff ffynon,
 Dyferu hedd wna dwfr hon;
 Myfinau ymofynaf,
 Afon o hedd a fwynhaf :
 Diod geir—deued y gwan,
 Ei fywyd wêl yn fuan,
 Yfed ef, ei fywyd yw,
 Gras tadol ei Grist ydyw ;
 Mil miloedd aml eu moliant,
 O yfed i fywyd ânt.
 Os eich hâd a sychedant,
 Heb omedd digonedd gânt ;
 Pawb ymhell ddaw am welliant,
 Oll yn hon y llawenhant.

Wele yr lawn lawn oleuni—llachar,
 A lloches dyn ynddi ;
 Ei warth ddiflanodd wrthi,
 Rhod y Nef yn rhad i ni !

Duw yn Nghrist sydd i Gristion—fel y môr.

Yn fil mwy na digon ;
Hyfrydle i'r afradlon
Ofyn hedd, yw y fan hon.

Nyni ar goll yn hollol,
Goleu o nef i'n galw 'n ol.

Er y môr a'i ru marwol,—heb un llong,

Heb un lle diangol ;
Trwy y dinystr trydanol—
Goleu o nef i'n galw 'n ol !

A llais yn y goleu llon
O ddywenydd i ddynion.—

“Yn awr yw eich awr i chwi,—nac oedwch,

“Chwi ellwch ei cholli ;
“Ond deuwch ! nid hawdd tewi.”
Nid hawdd yw gwell nawdd i ni.

I bwy mae 'r alwad ? I bawb—
Nid diobaith pe deubawb !
Mal “gwaedd uwch adwaedd ” ydyw,
Gwaedd ar fyd—egwyddor fyw.

Os y difoes was diafol
At ei Nêr ddaw eto 'n ol,

Nid dialedd a'i dilyn,
 Credu mae, cariad a'i myn.
 Cred y dyn, cariad yw Duw,
 Nid dialedd na diluw.
 Ei Dad a wna 'n nodedig,
 Enaid ei Dduw nid yw ddig :
 Pechadur a gur a gâ,
 Daw o'i ludded i wledda.

Duw yn ymgeleddu dyn,
 A'i gael yn euog elyn !

Heb obaith ac heb wybod—yr hyn oedd
 Rhinweddau y Duwdod :
 Pob rhith melldith a malldod—pob llygredd,
 Trwy holl oferedd buchedd ei bechod.

Heintiau 'n dod a hwynt yn dal
 Mab camwedd ymhob cymal,
 Heb un grym o ben na gwraidd
 Trwy ei enaid truanaid.
 Ni chred ef na chariad Duw
 Na dinystr enaid annuw,
 Ni chyfrif ddeddf na chyfraith,
 Na chosp am drosedd ychwaith.

I greadur heb gredu —yn ei Dduw
 Na'i ddawn i waredu,
 I fyd o wae 'n addfedu,
 Nid oedd ond anobaith du.

Yma trof : yn Nuw mae trefn,—dyna ddyn
 Dan y ddoeth gyfundrefn,
 Er byw yn unrhyw annhrefn,
 Cafwyd, dyrchafwyd drachefn !

Dwyn enaid y dyn annuw
 Eto i ddod at ei Dduw ;
 Troi ei feddwl trwy faddau,
 Llwyddo y gwir, lladd y gau ;
 Lladd yr anian satanaidd,
 Gras yn amgylchu ei gwraidd ;
 Enynu grym anian gras,
 Wrth dori nerth y diras :
 Gwres y Nef yw gras i ni,
 Yn dirion genadwri,
 Llwyddir hwn, lleddir hunan,
 Dyn newydd fydd yn y fan !

Dynion heb ras am danynt,—na chalon
 Am ddychwelyd ynddynt,
 Eto mae 'r alwad atynt,—
 Ymgais i'w cael megis cynt.

Llais yr Iawn mewn 'wyllys rydd,—yw galw dyn
 I gael Duw 'n wareddydd :
 Oni ddaw o fewn ei ddydd,
 Daw o'i ôl y dialydd.

Gwelodd pwy oedd y gelyn—digymod,
 A'i gamwedd yn canlyn,
 Gwela Oen Duw galon dyn
 A gradd ei heuog wreiddyn.

Duw yn galw—dyn a giliodd ;
 Duw ni phall,—ond dyn a ffodd !

Duw yn ei Fab adwaen fodd
 I gael y rhai a giliodd :
 Yr un a wyr enw arall,
 Nid oes i'n hachub, nid all ;
 Dyma y gwir a dim gwall,
 Anwiredd yw enw arall.

Y Nefoedd i fwy nifer
 O saint na rhifedi sêr,
 Calon y mwyaf celyd
 Yn gân a heddwch i gyd !

Cariad yn Nuw sy 'n curaw,—mae ei lais
 Am le i dosturiaw ;
 Ac i'r isel mae croesaw,
 Rhan a ddyd i'r hwn a ddaw.

I'r hwn a ddaw rhan a ddyd,—pwy bynag,
 Pob un am ei fywyd ;
 Mae hafan yma hefyd
 I'r wyl fawr yn yr ail fyd.

Mwy melus moddus yw mawl—o ganfod
 Y deg wynfa nefawl ;
 Mae yn hyn i minau hawl,
 Yn deg i'r wledd fendigawl.

Hawl ydyw i wael adyn—achubwyd
 A gafwyd yn gofyn ;
 Graddeb y fraint yw 'r gwreiddyn,—
Duw yn ymgeleddu dyn !

Annuwiolion a welant,—eu hadeg
 O'i hoedi a gollant ;
 Eu hawr sydyn arswydant—
 Am wrthod eu gwrthod gânt !

Mae 'n Ior yn fôr o fawredd ;
 Ein Tad ni ofyn ond hedd,
 Byth y pâr ei drugaredd,
 Ei air, ei lw, a'i wir wledd.—
 Gwledd efengyl hedd yw hon,
 Dyddanwch da i ddynion.
 Wedi hir oed o aros,
 Tramwyo niwl trwm y nos,
 Holl anian yn llawenydd
 O agor dôr gwawr y dydd :
 Yr haul i'r golwg ar hyn,
 A gwir rwysg yn goresgyn,—
 Siriolwr yr Israeliaid !
 Ein ffydd yn ei enw ni phaid.

Daw henaint yn dihoeni,—dyma groes !

Daw mwy grym i'w chodi ;
 Buddiol iawn yw boddloni,
 Gras a wnaeth y groes i ni.

I godi y groes gyda grym,
 Dan ganu a'i dwyn genym,
 Dyweinydd pob daioni
 Roes o'i nawdd ei ras i ni.

Nid wyf drist, medd y Cristion,—llon wyf fi,

Llawn o fawl yw 'm calon :
 O ddedwydd addewidion,
 Yn dal er ymchwydd y don !

Llyna gwpanau llawnion,—o fendith,

O fwynder nefolion ;
 Er elw daearolion,
 Ernes hardd i'r einioes hon.

Er tegwch gwelwch argoelion—marw 'r ym

Marw raid i ddynion :
 Mae, er wylaw marwolion,
 Ar ein llaw farw yn llon !

Er nychu a hir wan iechyd—er byw

Mewn mawr boen dros enyd ;
 Y wir elfen a'r eilfyd
 A ga y meddwl i gyd.

Bod yn Nuw, bywyd newydd,—
 Marw, nid i farw fydd,
 Daeaf i ddaear a ddaw,
 Naturiol mae yn taraw.
 Daw diwrnod darfod y daith—
 Dydd amdo—diwedd ymdaith ;
 Er wylo o'i roi ar elawr,
 Mewn heddwch yr ä'r llwch i'r llawr.

Yr enaid yn arweiniawl
 I olud mwy,—i wlad mawl !

* * * * *

Ond O ! ddedwydd ddydd a ddaw,
 O lawenydd ail unaw !
 Ail unaw i lawenydd,—
 Marwol yn anfarwol fydd !
 Ar oriel fawr yr ail fyd,
 Man y bo emyn bywyd,
 A'r alaw fwyn reolaidd
 Drwy y gogoniant a draidd !

Duw o'i le yn dawel iawn—agora
 Ei gariad i Sion ;
 Er adfyd ein gwynfyd gawn
 Yn ngoleu haul angelion.

Er uchod, mwyned y mawl—geir isod
 O sorod amserawl ;

Golud gwell yw gwlad y gwawl,
A fydd ini 'n feddianawl.

Bro Salem gawn breswylio—a byw 'n bur
Heb un bai i'n blino ;
Twyll yw 'r byd, tywyll yw 'r bedd—
Gwirionedd a geir yno.

O mor dawel mae 'r diwedd—yn dyfod
Wedi difa ein llygredd !
Yn yr Iawn mae y rhinwedd,
Dyna fan ni edwyn fedd.

Nid yw bedd ond enyd bach,—a bër wyl
I buro ein rhan afiach ;
Cawn uno mewn cân iawnach
Yn y Nef,—a ninau 'n iach !

“ Y corff a fydd ” fydd i fod,
Addurnir yn ei ddiwrnod,
Y ddelw o glai a ddeil glod,
Nid yw eto i'w datod ;
Dyna gorff fydd yn dwyn gwedd
Yr enaid mewn gwirionedd ;
Bywyd i fywyd a fydd,
A'i gael yn un a'i gilydd ;
Eu rhan mwy fydd yr un mawl
A miliynau molianawl ;
Y delyn aur, a'i diliau ;
Yn y swm äf !—*mae 'n neshau !*

* * * * *

Y Cload.

Pob un red, pawb yn ei rwn,—ar risiau
Yr oesoedd cyflymwn ;
I fedi yr ymfudwn,
Byd i hau yw 'r bywyd hwn.

A gred yn y Gwaredwr,
Ga 'n ei law ddigonol wr ;
Eiddo oedd iddo oddef,
A'i eiddo yw " IDDO EF."



Y CYSEGR.

Yr hen brofiadau a'r symudiad i'r capel newydd.

Mae fy nghalon yn hiraethus,
Mae fy nheimlad yn alaethus,
Ow rhoi ffarwel byth i Bethel,
O am nerth i dewi 'n dawel.

Beth ! Pa beth a wylltia 'r dynion,—
(Ameu 'r wyf ai gras eu calon),
O'r hen adail fendigedig,
Sydd a'i henw yn gysegredig.

Llawer bendith o wlith nefol,
Llawer profiad adeiladol,
Llawer cyngor gefais yno,
Fyth nad allaf eu hanghofio.

Cawn, ni gawn yr un Arweinydd,
Eto yn y capel newydd,
Down i fyny dan ei faner,—
Ond mae 'r hen yn well o'r haner !

Cysur ac hyfforddiant yn wyneb y symudiad a gyfeirwyd ato.

Gristion anwyl, paid a chwyno,
Rhôd Rhagluniaeth sydd yn gweithio:
Myn'd y mae yr hwyldroadau,
Myn'd a myn'd sydd raid i ninau.

Nid oes funyd yn arosol
 I arddangos y presenol,
 Oll yn neidio o'r dyfodol,
 Gan ymsuddo 'n y gorphenol!

Fyny! finy! medd y cread,
 Fyny! finy! medd datguddiad;
 Fyny! finy! deuwch yma,
 Medd eiriolaeth y Messiah.

Trwy ymostwng mae dyrchafu,
 Trwy y llwch mae myn'd i "fyny,"
 Arwydd yw o wir ddyrchafiad,
 Ar y ddeulin roi addoliad.

Nid y lle, ac nid penlinio,
 A gyfrifir yn weddio;
 Nid yw cynull mewn adeilad,
 Ond y ddelw o addoliad.

Nid oes rhan o'r ddaear ddiwall
 Gysegredig mwy nag arall;
 Nid oes tŷ a wneir â dwylo
 Y gellir dweyd bod Duw yn trigo.*

Mae pob rhan o'n byd breintiedig
 Yr un modd yn gysegredig

* 1 Bren. xiii. 27: Esau lxvi. 1, 2; Act. vii. 47 48.

Wedi geni Mab Duw ynddo—
Pawb yn cael eu galw ganddo.

Nid yw tŷ ond amddiffynfa
Roddwyd i ni er cyfleusdra,
Dyma le dirgelwch crefydd—
Cysegr Duw yw 'r galon newydd.

Nid ar dŷ mae Duw yn edrych,
Nid yw teml iddo yn wrthddrych,
Yn ei saint y mae 'n preswyllo,
“Trig yn Sion,” erys yno.

O mor isel y mae Sion—
Megis rhwng crochanau duon,
Fel y myrtwydd yn y cysgod,
Anhawdd iawn i neb ei chanfod.

Gweithio y mae binaclau hirion
Wrth ei thai a'i themlau gwychion,
Fel dangoseg wan mai yno
Y mae'r DUWDOD yn preswyllo !

Llawer dadl frwd a grymus
Fu ar ieuo 'n anghymarus ;
P' le bu ieuo mor anghymwys
Ag yw ieuo 'r byd â'r eglwys?

Gwelir Sïon arni ei hunan,
 O dywyllwch y daw allan,
 Fel y wawr yn ei phrydferthwch,
 Pawb yn gweled ei hawddgarwch.

Oer yn aml, ac arwynebol
 Ydyw profiad cariad brawdol !
 Ni ddaw undeb i gyfnerthiad
 Ond âg euraidd raffau cariad.

Câr dy frawd yr hwn a welaist,
 Gyda'r hwn y cyfaneddaist,—
 Onide, pa fodd y gelli
 Garu Duw, yr hwn nis gweli?

“ Pwy a gredodd i'n hymadrodd ?”
 Sydd ofyniad ddeil ei adrodd,
 Ac i bwy y rhoed yr arwydd
 O ddatguddiad braich yr Arglwydd ?

Gweddi ffyddiog gan yr eglwys
 Droai 'r ddaear yn baradwys ;
 Ddaear ! ddaear ! clyw yn ebrwydd,
 Ddaear ! gwrando air yr Arglwydd.

Rhaid i Sïon fod yn fynydd,
 Gwyn fyd y dydd !
 Mawr, gweladwy drwy y gwledydd,
 Gwyn fyd y dydd !

Yna pobloedd a ddylifant,
 Gwêl y byd lle mae 'r gogoniant,
 A bydd Sïon yn ben moliant,
 Gwyn fyd y dydd!

Sïon fydd perffeithrwydd tegwch,
 Gwyn fyd y dydd!
 Ymddisgleiria mewn brawdgarwch;
 Gwyn fyd y dydd!
 Dyma 'r pryd y ca 'r gogoniant
 Ei amlygu i'r byd yn bendant,
 Una miloedd yn y moliant!
 Gwyn fyd y dydd!

Aban Hefin, 1871.



“DUW, CARIAD YW.”—1 *Ioan iv. 16.*

O groes ddych'mygion dynolryw
 Am gwypm dynoliaeth a'i dyrchafiad,
 Nid un yn groesach na bod Duw
 Yn bwrw ei lid ar Fab ei gariad!
 Cariad yw Duw, nid llid na chât—
 Mae 'n gwel'd pechadur edifeiriol;
 Mae ei weithredoedd oll o ras,
 Maddeua'n llwyr a diamodol.

Pechadur arall uchel ffroen,
 Maddeuant rhad ni chais y dyn ;
 Gan ddiystyru Duw a'r Oen,
 Ni chymer ond ei "ffordd ei hun ;"
 Gwrthnysig yw, ond daw y pryd
 Pan eto 'r argyhoeddir ef—
 Pan wela fod ffyrdd ceimion byd
 A'i ffordd ei hun yn groes i'r Nef.

O hir gyndynu daeth i lawr
 Yn ofni marw—yn ofni byw,
 Ei ing yn ddwys, a'i feiau 'n fawr—
 Dechreuodd alw ar ei Dduw ;
 Da iddo fod amynedd Duw
 Yn para fel y môr didrai,
 Dywedai, Crêd, a digon yw—
 Y modd y bydd yn maddeu bai.

Cildynrwydd pellaf calon dyn
 Mewn annheilyngdod o faddeuant,
 Oedd gwrthod gras y Mab ei hun,
 Croeshoelio Arglwydd y gogoniant !
 Er hyn, amynedd Duw sydd fwy ;—
 Yn lle llwyr ddifa 'r archlofruddion,
 Defnyddia 'r Groes a'r marwol glwy,
 Yn gwllwm undeb Duw a dynion !

Goruwchlywodraeth uniawn Nef,
 Yn hyn a droes y groes yn goron,

Y gair "*Gorphenwyd*," uchel lef,
 Ddymchwelai allu y gelynion ;
 Ni phalla ffydd credadyn gwan
 Er gweled uffern yn cynhyrfu ;
 Tawela 'i feddwl yn y fan,
 Wrth gofio buddugoliaeth Iesu.

Ei fywyd oedd un gyfres fawr
 O dystiolaethau Duw yn galw ;
 Diesgus ydym ninau 'n awr
 Pan ar ein llaw i fyw neu farw ;
 Gwrth'nebu Satan sydd yn rhaid,
 Gwrth'nebwr ydoedd o'r dechreuad,
 Doniau y nef sydd oll o'n plaid,
 Y mwyaf o'r rhai hyn yw *Cariad*.



OFNAU YN DIFLANU, A FFYDD YN
 GORCHFYGU.

Od oes un peth yn Sion Duw
 Bair ameu fyth ai Sion yw,
 Ei phlant yn coledd ofnau 'n wan
 Mai colledigaeth fydd eu rhan.

Nid teilwng ydyw llwyfrhau
 Gan ofni 'r gelyn, na thristau,
 Tarian y ffydd, a'r helm ddiwall
 Droant yn ol bicellau 'r fall.

Cilio wna 'r nos o flaen y dydd,
 Daw gwawr ar ol tywyllwch prudd ;
 Dinas yw Sion, sicr ei sail,
 Dan nawdd cyfryngdod "Adda 'r ail."

Adeilydd hon yw Duw ei hun—
 Ei Brenin ydyw Mab y dyn ;
 Mae ar y graig—y graig yn gref,
 A'i phlant yn etifeddion Nef.

Heb ameu 'n hwy cyfodwn lef
 Mewn cân o foliant "*Iddo Ef* ;"
 Nid gweddaidd yw fod neb yn drist,
 Sy 'n arddel cymod Duw yn Nghrist.

Cymodi'r byd âg Ef ei hun,
 Wna Duw yn haeddiant *Mab y dyn* ;
 Un haeddiant arall fyth nid oes
 I neb, ond haeddiant *Iawn y Groes*.

Gwaith ofer pererinio 'n mhell,
 A gweithio Iawn drwy fywyd gwell,
 Mae 'r Iawn yn gyflawn gyda Duw,
 Mae 'n rhad i ni,—ein bywyd yw.

Ond na feddylied neb fyw 'n rhydd,
Fel rhai ni anwyd yn y ffydd ;
Dywedai Crist yn ngrym ei drefn,
Mae rhaid yw geni dyn drachefn.

Wedi ein geni o Ysbryd Duw,
Mae hwn o fewn yn anian fyw ;
Y cnawd yn wan—ond ffydd yn gref,
A theimlo wnawn ein grym o'r Nef.





Mgfyxion Diddanol.

Ein bryniau ban a'n bronnydd,—a lloniant
Ein meillionawg ddolydd,
Yw paradwys y Prydydd;
Teml ddi-len i'r awen rydd.

Tri ugain wyf, tra egwan oed,—ei hun
Ni ddaw henaint trithroed :
Ond er hyny, drwy hênoed,
Llawen yw'r Awen erioed.

Ebrill 13eg, 1861.

RHEOLAU YMARFEROL ER CADWRAETH
IECHYD A BUCHEDD DDA.

1.

Yn foreu cyfodwch, cyn gwisgo ymolchwch,
Gan gofio 'r prif gyngor—"ymhob dim diolchwch,"
Gwell derbyn awelon cryfhaol y wawrddydd,
Na mwynhau breuddwydion, a'ch pen ar obenydd.

2.

Ar ol cael boreufwyd, eich gwaith fydd yn galw,
Ewch ato 'n ddiarswyd, drwy 'r teg a thrwy 'r garw;
Yr Hwn barodd orphwys ar un dydd o saith,
Roes hefyd chwe' diwrnod i wneuthur pob gwaith.

3.

Ar ol cael eich ciniaw, a bwyta 'n gymedrol,
Na frysioch i godi heb achos penodol;
Darllenwch, siaradwch, yn ol eich dewisiad—
Ond pob peth yn fuddiol, ac nid oes waharddiad.

4.

Gofalwch yn bendant am beiriant y danedd,
Rhag iddo anmharu drwy unrhyw anmhuredd.
O fod yn ofalus o'r rheol fawr yma,
Ceid llawer llai 'n glwyfus o boen yn eu cyll

5.

Daionus i'r cnawd yw gwlân i ddilladu ;—
 Ond beth os rhy dlawd ? Pwnc arall yw hyny.
 Na phoethwch eich gwaed âg unrhyw beth meddwol,
 Cynheswch eich traed drwy waith ymarferol.

6.

Ar ol cym'ryd swper, cyfodwch a cherddwch ;
 Ac ar ol dychwelyd, gweddiwch a chysgwch.
 Dan fendith, canfyddwch y deuwch bod dydd,
 Yn uchel mewn ieched, yn gadarn mewn ffydd.

*“ Yr hwn sydd yn sefyll, edryched na syrthio,”
 Yn rhad ymae'r addysg—am ddim ond ei cheisio.*

 GOBAITH A MWYNHAD.

Yn Ebrill mae gobaith yn gryf am y mwyniant,
 Daw Mai gyda 'i siomiant, â mwyniant ymhell !
 Daw Haf heb y mwyniant, ond ambell ychydig ;
 Mwynhad sydd gauedig nes myn'd i'r “*wlad well.*”
 Mae yno 'n ymagor yn bob peth sydd hyfryd,
 Goruwch pob meddylfryd o hawddfryd a hoen,
 Mwynderau diddiwedd y Nef yn ei mawredd,
 Dadblygion trugaredd ar orsedd yr Oen !

C A L A N M A I .

Yn Ebrill cawn ganiad y Gôg
 Yn galw Calanmai yn ol!
 Cawn weled yr aradr, a'r ôg
 Yn troi æ yn llyfnu y ddôl,
 Cawn weled brialli fil-myrdd,
 Bydd arogl yr awel yn iach;
 A'r plant am y cynta' 'n y ffyrdd,
 Yn chwilio am nyth 'deryn bach.

(Ond gwell iddynt adael y nyth,
 A gwrando 'r aderyn yn canu,
 Yn lle myn'd yn lladron yn syth,
 Ac yntau 'r un bach yn galaru.)
 Cawn wel'd y ceiliogwydd llwyd mawr,
 Yn gwylio 'r anwyliaid a garai,
 A'r 'hedydd ar doriad y wawr,
 Ei gân fydd, *Calanmai! Calanmai!*

Mae rhai yn myn'd o'u lle
 Er gwaeth,—a rhai er gwell.
 Mae rhai am fyn'd i'r dre,
 Y lleill i'r wlad yn mhell.
 Mae rhai am gyflog mwy,
 Y lleill am lai o waith,—
 Heb achos enwi pwy,
 Mae fel bu lawer gwaith.

Un i'w faes, un i'w fasnach, a dweyd dim yn rhagor,
 Yw 'r cwbl gan lawer ar ddiwedd eu tymor,
 Heb fawr yn ymofyn pa le mae 'r ddarpariaeth
 A wnaed yn ddiangfa yn nydd en marwolaeth.
 Calanmai! Calanmai! Nid yw ond un diwrnod,
 Calanmai! Calanmai! Mae 'r flwyddyn yn darfod.

* * * * *

Ystyriwn, ystyriwn, y gwir sydd yn canlyn,—
Mae tebyg, tra thebyg, yw oes dyn i flwyddyn!

Y GÔG.

Os cân côg a fi yn f' ngwely*
 Ni rwgnachaf glywed hyny;
 Ni wna hithau alw mo 'nof,
 Medr ganu " gwcw " hebof.

" Gwcw " yw ei chân foreuaf,
 " Gwcw " 'r ail, a " gwcw " 'r olaf;
 Neb mwy dedwydd yn carolu,
 Byr a mwyn y mae 'n teloru.

* Yr oedd y bardd yn glaf pan gyfansoddodd y llinellau hyn i'r Gôg.

... y goreu "Deuair-fyrion"
 Ydyw caniad daearolion,—
 Anthem fawr y fro fendigaidd,
 Leinw 'r enw "*hir a thoddaid.*"

Y CYNTAF A'R AIL.

Ein tad cyfrifedig
 O'r ddaear mae ef ;
 Y dyn ailanedig,
 A aned o'r nef :
 Y cynta 'n ddaearol,
 Daearol ei daith :
 Yr ail ddyn yn nefol,
 A nefol ei waith.

Mae y ddwy berthynas yna ymhob dyn ailanedig ; y berthynas gyntaf yn unig sydd yn y di-ailanedig.

A aned o'r cnawd,
 Mae 'n eglur sydd gnawd ;
 O'r ddaear ei ganed,
 I'r ddaear mae 'n myned.
 A aned o'r Ysbryd,
 Yr un modd sydd Ysbryd ;
 O'r nefoedd ei ganed,
 I'r nefoedd mae 'n myned.

Mae 'r ddau yn mhob Cristion yn gweithio 'n ddiball,
 Y "dyn cyntaf" yw un, yr "ail ddyn" yw 'r llall.
 Y ddaear i'r ddaear ar ddiwedd yr oes,
 A'r ysbryd ddychwela at Dduw 'r hwn a'i rhoes,
 I aros y diwrnod, yn unol â'r drefn,
 Y gelwir y marwol i fywyd drachefn;
 I fyw yn dragwyddol yn mhob dymunoldeb,
 Lle ni ddaw llaw amser i ddangos marwoldeb.

"PA BETH SYDD MEWN ENW?"

"A rose by any other name would smell as sweet."

Pan yn myfyrio 'n drist fy wyneb,
 Ar dwyll y byd a'i anghysondeb,
 Mi welais gi o'r enw "*Gwarwyn*,"
 Er fod ei war yn *ddu* bob blewyn!

Mae 'r enw "*Anwyl*" ar rai dynion,
 A phob *casineb* yn eu calon!
 Mi welais hefyd farch mewn tenyn,
 A duon draed a'i enw *Troedwyn*!

Y L L O N G .

Glwysddaf ar rawd y glasddwfr,—ydyw llong;
 Daw a'i llwyth yn ddilwfr;
 Dawnsia ar nerth y certhddwfr,
 Ei hoffder yw dyfnder dwfr!

ARALL.

Gorwech ar *esteg* garw-wynt,—trwy gylchoedd
 Y moroedd a *maur*-wynt,
 Yw 'r hoewlong ar ei helynt,
 A'i hwyliau 'n gwau yn y gwynt.

ANGOR Y CRISTION.

Er gorfeilch donau 'r garwfor,—a'i gynwrf,
 Mae genyf fy angor ;
 Trwy Iesu, hwn yw 'm trysor,
 Rhad i mi yw rhuad môr.

Y FORDAITH OLAF.

Mae y môr a'i donau 'n rhuo,
 A'r ystorm yn codi 'n gref ;—
 Minau 'n dawel yn mordwyo
 Dan lywyddiad Brenin Nef.

* * * * *

Mwy nid ofnaf unrhyw elyn
 Sydd yn myddin brenin braw,
 Fyth nis gallant fy ngorchfygu,—
 Af dan ganu i'r gwynfyd draw !

“CRIST YNOCH, GOBAITH Y GOGONIAN.”

Gwyn fyd yn Nghrist a gredant,
 Eu hawl adwaenant hwy,
 A “gobaith y gogoniant,”
 Fydd yn eu *meddiant* mwy ;
 Pan dry ein ffydd yn olwg,
 A’n gobaith yn fwynhad,
 Cawn chwareu ’r aur delynau,
 Ar lanau ’r NEFOL WLAD.

YR YSGOL FRYTANAIDD.

Er pob anhawsderau gwnawn ddyfal-barhau,
 Cynyddu mae ’n pleser a’n poen yn lleihau,
 A ffy anwybodaeth o’n blaenau fel tARTH,
 Goleuni dysgeidiaeth lewyrcha ’n mhob parth.

Tra byddo gwybodaeth yn mawr amlhau,
 Boed gras yn y galon bob dydd yn cryfhau ;
 Ein cywir “*hyfforddwr*” yw BEIBL ein Duw,
 Ffynhonell dysgeidiaeth o’r nef i ddyn yw.

Gristionogion “gwahanol enwadau” gwrandewch,
 Ac addysg feallai o’n genau a gewch,
 Paham yr ymrenwch?—Mae IESU ei hun
 Mor ddwys yn dymuno i’w saint fod yn UN.

Na theffwch “*erthgglau*,” “*r eolau*,” na “*phlaid*,”
 I lygad y ffynon sydd loew heb “*laid* ;”
 Awn rhagom mewn CARIAD, daw ’n bwriad i ben,
 Cyll Satan ei wrthddrych, cawn weled heb len.

Tra un yn ymerwi yn eiddo i *Paul*,
 Un arall i *Cephas*, pa weithred mwy ffol?
 Mae h. ll ymraniadau enwadau pob oes
 Yn un anghysondeb i UNDEB yn groes.

*Canwyd y penillion uchod gan blant yr ysgol, Brynecrug, ar
 ddydd yr orymdaith i Down, Medi 11eg, 1846.*

ENGLŶNION I'R YSGOL FRYTANAIDD,

*Yr hon a gynhelir yn annibynol ar unrhyw “Gredoau,”
 “Cyffesiadau.” “Rheolau,” nac unrhyw “Ddeclarations”
 pa bynag perthynol i unrhyw gyfundeb eglwysig, gwladol,
 nac Ymneillduol, pa rai, gan na chyaunant y naill â'r llall,
 nis gallant o ganlyniad gyduo â'r gwirionedd, a chan na
 safant yn y gwirionedd, rhaid yw, yn ol gair y gwirionedd,
 a cyfrif yn gelwyddog :—*

Ysgol o fuddiol foddau—ydyw hon,
 Nid i hau hâd sectau.
 Cael addysg, nid celwyddau,
 Yma wneir, tra ’n ei mwynhau.

Caru Duw ac nid "credoau" (&c.),—a wna ddyn
 Yn dda ei rinweddau,
 Am hyn ceir, a dim nacau,
 Gwir RYDDID i bob graddau.

Y W Y D D O R .

Llyth'renau, gemau digymysg,—perlau
 O nwyddau iawn addysg,
 Dueddant blantos diddysg
 I fywyd llawn dawn a dysg.

"DIC SION DAFYDD," ETO.

*Cynygwyd unwaith ar i blant yr ysgolion Saesonaeg dyddiol
 ddysgu Saesonaeg yn lle Cymraeg yn yr ysgolion Sul hefyd a
 bu dadl i brwd o bob oehr gan yr athrawon. Yr oedd y
 prnc i gael ei benderfynu mewn cytarfod athrawon y Sul
 canlynol. Erbyn hynny parotwyd y penillion yma, a buont
 yn ddigon llwgyddianus i droi y fantol yn y fan:—*

Gwrandewch, deulu Gomer,
 Hiliogaeth awenber,
 Mi draetha i chwi fater ansyber a syn—
 Mae nadau annedwydd
 Yr hen Ddic Sion Dafydd
 Yn codi o newydd yn Nhowyn !

Bu farw Dic unwaith
 O'r darfodedigaeth,
 Ond wele ef eilwaith, O fariaeth ! yn fyw.
 Mae 'n firia anfarwol,
 Mewn twrw annaturiol,
 Hen adyn hynodol iawn ydyw.

Mae 'n rhaid i Ddie falchaid
 Gael bod yn Saesonaidd,
 Aeth pobpeth Cymroaidd yn fawaidd i'w fant.
 Nid oes a'i boddlon,
 Was melyn ysmala,
 Tu yma i Glawdd Offa,—Ow lyffant !

Mae weithiau 'n grefyddol,
 A swm defosiynol,
 Dan rith bod yn dduwiol mae 'n ddamniol o ddyn ;
 A'i lais o'r tywyllwch
 Yn erbyn gwladgarwch,
 Gochelwch a gwyliwch ei golyn !

Gochelyd ! Ni chiliwn,—
 A phaham ei hofnwn ?
 Ymlaen yr ymlynwn, a daliwn y dwl.
 A didwyll dywedwn,
 Heb ludded y bloeddiwn,—
 EIN HEN-IAITH A GADWN !
A phastwn y cosburn y coisbul.

Y B E I B L

Yn annibynol ar gredoau dynol, muriau gwahaniaeth y "gwahanol enwadau" yn cael eu dinystrio,—yr ysbrydion sectawl yn ffoi wedi colli eu lloches, &c. Cyfansoddwyd yr englynion canlynol nos cyfarfod "Cymdeithas y Beiblau" Towynd, Hydref 4ydd, 1855. Yr hybarch EMRYS yn darlithio, pan yn egniol y dangosai wrthni Ysbryd Sect, yr hyn nid oedd a fynai y Gymdeithas âg ef. Corfformyd y tri cyntaf yn yr Ardl (Tudalenau 3—4).

Hynodion ein "henwadau"—yw gwisgo
 A gwasgu rheffynau
 O "gyffesion" gweigion gau
 Yn sothach am eu saethau.

Saethau y GAIR heb sothach—o ddeddfau
 Dan enwau dynionach;
 Dywysent deimlad dwysach
 Ar ran DUW i'r enaid iach.

Iach ydyw y pechadur—wâg obaith
 Cyn gwybod ei natur;
 Goreu peth yw y Gair pur
 Iddo weled ei ddolur.

Dolur, o ras, a'n dalio,—gwaed y groes
 Gyda grym a'n cadwo,
 A gwir faeth y Gair a fo
 I'n dwyn yn ddeiliaid dano.

Duw uned bawb o dano!—"muriau gwellt!"
 Mawr eu gwall yn fflamio,—holl ysbrydion
 Ein "henwadau" yn heidio—ar garlam
 I'r gaer wyrgam ddiadlam i'w hidlo!

Eu hidlo, gogro, a'u gwegryn,—heb son
 I ba "sect" y perthyn,
 'E daffir pob dieffyn
 I wel'd llaid gwaelod y llyn!

Gwaelod diwaelod welant,—yn is, is,
 Yn oes oesoedd elant,—
 Duw, a wnêl na ddychwelant,
 I rwydo a blino 'i blant!

*Sylwer mai "YSBRYDION yr Enwadau" (schism) a gorffolir
 yma i'w condemnio, nid ein cyd-ddynion, pa mor ofer-
 goelus bynag y byddont,—Act. iv. 16; 1 Cor. i. 10—16; Galat.
 1. 6—10.*

Y D Y N P E C H O D .

Annedwydd dy honiadau!—Adwaenir
 Dy eon gableddau,
 Fab ellyll o'r gwyll yn gwau
 Difrodwyd dy fwriadau.

Gogoniant y gwâg “ enwau,”—a cholyn
 Uchelaidd y “ pleidiau,”
 Hyllaf fforch yn yr holl ffau
 A dynir o dy enau.

Tithau fyddi 'n arteithiol,—daw i lawr
 Dy lef uchelgeisiol,
 Dy enw fwriwyd yn farwol,
 Dyna yw ffawd y dyn ffol.

Ergydion a rhwygiadau—a roddir
 I wreiddyn y pabau ;
 Eu gwellt a'u brwyn gwyllt a brau
 Ddyrnir cyn hir yn ddarnau.



Y DIODYDD MEDDWOL.

Pe byddai 'r anferth weilgi,
 O'r gwlybon sy 'n pendroni,
 Yn inc i gyd, heb ddafn ar ol,
 O'r holl uffernol drwythi;—

Pe byddai 'r holl bibelli
 Yn binau ysrifenu,
 Y cetyn cwta, a'r cwbl i gyd
 Sy 'n gyru 'r byd i ddrewi ;—

Beth ddoi o deulu 'r fasnach,
 A phawb o'r fân gyfeddach,
 Beth ddoi o deulu 'r poer a'r mwg?
 Ni welid golwg waelach!

Beth bynag ddoi o'r meddwyn,
 Pa sut y teimlai 'r sotyn,
 Beth bynag ddoi o'r "*little drop*"
 Ar ôl rhoi *stop* er's tipyn;—

'E fyddai 'r inc a'r pinau
 'N rhy fach o fil o weithiau
 I frâs ddarlunio 'r drwg o drin
 Y cwrw, a'r gwin, a'u gwaeau,

Heb sôn am *gin* a *whisky*,
Brown stout, y *rum*, a'r *brandy*,
 Sy 'n gyru myrdd myrddiynau 'n noeth
 I uffern boeth i'w poeni.

Ond hyn sydd i'w ryfeddu,—
 Bod neb mor ffol a haeru
 Fod rhinwedd yn y gwlybon hyn
 Nad ŷnt ond llyn trueni!

A dyna 'r sut mae Satan
 Yn twyllo 'r meddwl aflan,—
 Trwy ddweyd mae uffern ydyw Nef!
 Mae'r Nef yw Ef ei hunan!

YR ARDYSTIAD DIRWESTOL.

Ydym yn canu 'n iach
 I'r gwinoedd halogedig,
 Ac hefyd " brandi bach "
 A'r *coniac* fflamedig ;
 Aed *gin* a *rum* o'r byd,
 Y *punch* a'r *grog* drewedig,
 Y *whisky* a'r cwbl i gyd,
 O'r gwlybon melldigedig.

Os teimlo syched wnawn
 Ein dwfr a'n llaeth fydd llawn ;
 A gwedd iachusol iawn a gawn i gyd.

Ni cha y *bitter ale*
 Byth mwyach ein syfrdanu,
 Dan esgus bod yn sâl,
 Na'r *porter* chwaith ein denu ;
 Y truan *pepper-mint*,
 Y *spruce* a'r *ginger-beer* :
 " *Long-life* " a gyll ei wynt !
 Y *neetar*, *pop* , a'r *cider*.

Os teimlo syched wnawn,
 Ein dwfr a'n llaeth fydd llawn ;
 A gwedd iachusol iawn a gawn i gyd.

Bu 'r gair ar hyd y wlad
 Na threchem byth mo'r cwrw.

Mai ofer cadw nâd,
 A chodi cymaint twrw ;
 Chwi gawsoch weled p'run,—
 Er cymaint ddarfu goncro,
 Ni gawsom ffordd i'w drin,—
Ymgadw 'n llwyr oddiwrtho !

Os teimlo syched wnawn,
 Ein dwfr a'n llaeth fydd llawn ;
 A gwedd iachusol iawn a gawn i gyd.

Yn ben y buasai byth
 O ran y rhai "cymedrol ;"
 Hwyt gadwant lawer nyth
 I fagu'r cyw dinystriol,
 Pan chwelir nythau 'r rhain
 Fe drenga "Syr John Heidden,"
 O eisiau "diod fain,"
 A ninau 'n canu 'n llawen ;—

Os teimlo syched wnawn,
 Ein dwfr a'n llaeth fydd llawn ;
 A gwedd iachusol iawn a gawn i gyd.

Cydganwn bawb yn llon,
 Mae 'r byd yn llawn gorfoledd,
 Bu farw 'r hen "Syr John,"
 Mae 'r goron ar ben RHINWEDD !
 Hai, glochydd, tor ei fedd,
 Heb aros am ei flingo,

Ni gadwn ninau wledd
Am iddo gael ei briddo.

Os teimlo syched wnawn,
Ein dwfr a'n llaeth fydd llawn,
A gwedd iachusol iawn a gawn i gyd.

BAND OF HOPE.

Come and sign to be abstainers
Come, come and sign,
Leave the smoking haunts of drinkers
Come, come and sign.
Now the glorious day is dawning,
Soon we'll see the giant falling,
Listen to the friendly calling
Come, come and sign.

* * * * *

Dewch a gwisgwch "Rwymyn Gobaith"
Dewch, dewch ymlaen,
Rhowch eich enwau i lawr ar unwaith,
Dewch, dewch ymlaen,
Buan gwelir diwedd medd'dod,
Ond ymrwymo i lwyr ymwrthod,
O mor hyfryd fydd y diwrnod,
Dewch, dewch ymlaen.

Er ei fod a'i safle'n uchel,
 Daw, daw i lawr,
 Wedi "dringo i gadair angel"
 Daw, daw i lawr,
 Awn ymlaen heb ofn na dychryn
 Mynwn dynu dan ei wreiddyn
 Er mor uchel yw ei frigyn
Daw, daw i lawr !

Y DDIOD OREU.

Harddaf yw yfed oerddwfr,—echryslawn
 A chroeslyd yw gwirfddwfr,
 Peraidd yfaf y purddwfr,
 I'm safn ni ddaw dafn ond *Dwfr !*

RHWYD Y DAFARN.

Gmelais yr englyn yma uwch drws Tafarndy.
 "Tyred i mewn er tori—dy syched,
 'Does achos mor meddwi,
 Mae gwirod yma a geri
 Wrth y tân ar werth i ti."

Dywedais inau fel hyn :—

Dyna fagl ! y dyn feglir—yn y rhwyd
 Ni ddaw 'n rhydd pan fynir,
 Tra 'i nod fydd gwrthod y gwir,
 Iach ryddid ni chyraeddir.



Y DDIODEN FEDDWOL.

“ Yfaf nes safaf yn syn !
 Yfaf ni oedaf wed'yn !”
 Cymer bwyll ! twyll yw i ti,
 Sotyn, nid lles yw iti.

Drwy weniaeth, dy wirioni—a wna 'r fall
 Yn wir fwyn os yfi ;—
 Ow ! daith fer o'i harfer hi
 Ar aelwydydd tylodi.

T'lodi ar ol taliadon—yn amlaf
 Wna ymlid y meddwon ;
 Pur eglur eu peryglon,
 I fwy twyll o yfed hon !

I GYFAILL A ARFERAI YFED Y GWLYBYR-
ON MÈDDWOL.

Aros! pa'm yr ymyru—â llynau
Cynllwynig y fagddu?
Trwyth o dwyll ar y traeth du,
Llanc o Fardd yn ei llyncu!

Och! gwylia awch y gelyn!—fe huda
Dy yrfa i derfyn!
Dy enaid i laid ei lyn!
Gwawdia dy alar gwedyn!

Gwrthodwn y gwarth hudawl,—na fynwn
Ei “fwyniant” aflesawl,
Da i ddim ond i Ddiawl
I danio enaid dynawl!

Y DYN HUNANOL.

Y lle na chenmyl arall mono
Na neb a dd'wed yn dda am dano,
Pa beth a wna 'r Hunanol druan,
Ond seinio moliant iddo 'i hunan.

Ei nefocdd ydyw lliwio chwedlau,
A chaboli digwyddiadau,—

Ei uffern fyddai 'r gwir o'i feddu,
Mewn awyr iach nis gall anadlu.

Ni raid i neb droi 'r gwir a'i drwytho
O fewn yr aflan grochan lliwio ;
Ni raid ychwaith wneyd clawdd neu achles
O gylch yr haul i'w gadw 'n gynes.

* * * * *

Gwenwynawl, gwan ei enaid,—llawn maldod,
Llyn melldith anwiriaid,
Yw Hunan, bwgan dibaid,
Blaenor y Babiloniaid !

Blin arwydd y blaenoriaid !—nyth o dwyll
A wnaeth dyn i'w enaid !
"Rabbi" du yn llyfu llaid !
Ei addoli wna 'i ddeiliaid !



Y CEILIOG.

Aderyn, nid daueiriog,—gwir i gyd
A geir gan y ceiliog,
Hyawdl ei gerdd,—odl y gôg,
Onid ydyw 'n odidog !

ARALL.

Y gwir ryddfardd, a greddfawl—awenydd,
 O anian perleisiawl ;
 Carolydd, emynydd mawl,
 A'i ganiad yn blygeiniawl.



LLADDIAD Y CEILIOG : SEN I'R GWAS
 DIOG.

Bu genyf geiliog glâs
 I'm galw i gyfodi,
 Pan fyddai 'r truan gwas
 Yn teimlo gormod diogi ;
 Ei lais oedd beraidd glir,
 A'i dôn yn hir odidog ;
 Hawdd clywed o bob man
 Y ceiliog bychan bochog.

* * * * *

Ond och fyth o'r aflwydd a ddaeth i'r aderyn !
 Fe dorwyd ei ben !—Wel " Amen " ebai 'r diogyn.
 Mae pawb fyth o hyny 'n cael hepian eu gwala,
 Nid oes yr un gân i gynhyrfu 'r orweddfa.

TOWYN, MEIRIONYDD.

Brodor o Dowyn, ar ol teithio pednar ban y byd, a dychwelyd adref, eistoddi yn hamddenol ar gopa Craig y Barcut, cyrchfa brydferth ymmelwyr yn yr haf, ac yno canai y llinellau hyn:—

Mi deithiais fôr, mi deithiais dir,
 O'r dwyrain i'r gorllewin,
 O'r gogledd oer i'r deheu poeth,
 Os wyf fwy doeth na rhywun ;
 Mi droes yn ol,—ni welais i
 Le tebyg i fy Nhowyn.

Ei bryniau ban a'i bronydd clyd
 O'i chylch i gyd yn gadwyn,
 Y môr i'w cydio 'n ddolen hardd,
 Y wlad fel gardd y gwenyn,
 A'r awel bura fedd y byd
 Yn gwylio iechyd Towyn !

Pa le mae 'r cloff, pa le mae 'r claf,
 (Gyfeillion, gaf eich gofyn ?)
 Heb allu agor llaw na'i chau
 Gan grydgymalau melyn,—
 Cyfrenir iechyd i bob rhan
 Yn Ffynon Cadfan Towyn.

Ymhlith rhianod glân eu moes,
 Prydferthwch oes y rhosyn,

Ni welais un mor wridog iach
 A'r eneth fach o Dowyn,
 Ga'dd ben ei blwydd yn dairarddeg
 Yn adeg c'naua' rhedyn.

Boed gwenau 'r Nef a rhad yr Ion
 Ar hoff drigolion Towyn,
 Ei meibion yn ardderchog lu
 Yn anrhydeddu Towyn,
 A phawb yn dweyd,—“'D oes neb mor ddel
 A merched tawel Towyn.”



Y G W E L Y ' N G A L E D .

Tŷ a thylwyth tra dymunol,
 Pawb yn dangos golwg síriol,
 Bwrdd yn llawn, ac eithaf croeso
 I ddewis beth a wnaï fy moddio.

Lle cysurus i ymdwymno,
 'Sgrifenu, darllen, a myfyrio ;
 Ystafell wely hardd i'w gweled,
 Ond yr oedd *y gwely 'n galed*.

Dillad ddigon i'm cynhesu,
 Ond ychydig allais gysgu,
 Yn rhan am nad oedd fawr o ludded,
 Yn rhan am fod *y gwely 'n galed*.

Mae llawer un yn c'weirio gwely
 Heb feddwl fawr myn'd iddo i gysgu ;
 Gwnawn i eraill fel dymunom
 I rai eraill wneuthur erom.

O bob gwely ag a welwn,
 O bob caled ag a deimlwn,
 Y peth caletaf i'w berchenog
 Yw *gwely drain cydwybod euog.*

Er y dillad gwlân cynhesaf,
 Er y gwely plyf esmwythaf,
 Am y camwedd rhaid cael cymod,
 Cyn yr esmwythâ 'r gydwybod.

CYD WYBOD P E C H O D .

*Myfyrdod wedi clywed Mr. Thomas Hughes, Machynlleth,
 yn pregethu ar Heb. x. 2.*

Gwybod cydwybod gobaith—a'n lleinw
 A llawenydd perffaith ;
 Dophet, nac un lle diffaith,
 Ar y grêd ni ddyry graith.

Ond, diobaith gydwybod !—Ow yr ing,
 Yr angen a'r trallod !

Y môr o ddig mawr i ddod!—arteithiau
 Dirif ffwrneisiau drwy uffern isod!
 Y suddo fyth sydd i fôd!—dan uthredd
 Tonau dialedd y tân diwaelod!

PENDERFYNIA'D ANYMDDIBYNOL.

Dyweded fwyned a fyno,—edryched
 Yn drachwyrn neu beidio,
 Yr un wyf, ac o'i ran o
 Un na ellir fy nhwyllo.

B O D D L O N R W Y D D .

Doed y byd y modd y delo,
 Byddaf finau foddlon iddo;
 Gwell yw tyddyn bychan, dedwydd,
 Na brenhiniaeth heb foddlonrwydd.

Eto rhaid bod yn ofalus—
 Cadw 'r tŷ a'r maes yn drefnus;
 Gwneyd ei hun yr hyn a allo,
 Wna y dyn fydd Duw yn lwyddo.

M A R W I F Y W .

Elw mawr y ceir duwioldeb
 Gyda bywyd o foddlondeb,
 Dyma wers o'r oes bresenol—
 Rhaid yw marw i fyw 'n dragwyddol.

Pa un bynag ai boddlonrwydd,
 Ai byw bywyd o rwgnachrwydd,
 Pawb yn gydradd—neb diangol,
 Rhaid yw marw i fyw 'n dragwyddol.

ANOGAETH I BEIDIO CWYNO YN IERBYN
 “Y BYD.”

Un tro pan ar neges yn y Ffridd, ger Machynlleth, cwynai fy nghyfaiill Owen Jones wrthyf fod “Y Byd” yn ei wasgu, ac ysgrifennodd englyn fel yma:—

“Hen fyd anhyfryd yn wir,—Ow, yw hwn,
 A hynod o ddihir,
 Anialwch, lle ni welir
 Dim bywyd hyfryd yn hir.”

Rhoddodd yr englyn i mi pan oeddwn yn cychwyn adref, ac ysgrifennai inau ato boreu dranoeth fel hyn:—

Aed “Y Byd” i b'le yr elo,
 A'i been a'i ofid a'i dilyno,

Byddaf finau fyw yn llawen
Yn nhrigfanau iach yr awen.

Nid yw yr awen byth yn cwyno,
Nid oes un "blaned" yn ei blino,
Rhodd y Nefoedd yw yr awen,—
Rhan y bardd yw bod yn llawen.

Pan oedd Saul yn cael ei fino,
Ac ysbryd drwg yn disgyn arno,
Beth a'i gwnai yn siriol lawen?
Dim ond clywed llais yr awen.

Tithau, f' anwyl gyfaill Owen,
Ydwyt un o blant yr awen,
Duw 'r diddanwch a'th fendithio,
Cân ei fawl â chalon effro.

COLLI Y FFORDD, A PHARHÂD YR
AEWAD.

Byd o gur, bywyd gorwyllt,—d'rysu
Ar draws llwybrau nwydwyllt
Trachwant, y rhaiadr trochwyllt,
I bair y gwae a berw gwyllt.

Er gweled drwg argoelion,—colli 'r ffordd,
Cellwair â phawb ffolion ;

Er camwedd llwybrau ceimion,—mae 'r alwad
Ar bob t'rawiad enciliad ein calon.

Y WAREDIGAETH RHAG BODDI.

Teimladau mewdol dorf ddirif
Fu yn y llif yn llefain ;
Rhagluniaeth fawr y Nefoedd draw
Estynai law i'm harwain ;—
Diangol wyf o'r " dyfnlyn du "
Wrth dân mewn teulu dedwydd ;
O niwl a dw'r fy anwyl Dad
Fu imi 'n rad Waredydd.

Y BARD D YN GLAF .

(Dydd pen ei flwydd).

Un a thri'gain aeth rhagynt—o'm heinioes
A minau o danynt
Yn gorwedd yn y garw-wynt,
Yn ddelw o wellt na ddeil wynt !

Tro arall (fy merch yn holi am ein helynt).

Pawb yn iach, Bess fach, ond fi,—a finau
Yn fynych adloni ;
Tawel ar lawr yw tewi,
Mae 'n rhodd oreu modd i mi.

Tro arall (mewn cystudd trwm).

Mae clywed dweyd fy mod "yn well,"
 Fel twrf o bell i'm clustiau,
 A finau 'n *teimlo*, druan gwan,
 Fel un ar làn yr angau.

Mae Crist yn graig, a'r graig yn gref,
 Ei weled Ef sydd ddigon,
 Fe ddeil fy mhen, Amen i mi,
 Yn nyfnder lli yr afon.



Y R A D F E R I A D .

Bendith, a dim rhith i'm rhan,—a roddwy
 Gan ireiddio 'm hanian ;
 Wy'n llawn nerth, heb un lle 'n wan,
 Ond Tachwedd oes yw tuchan.

Ni feddaf ddim i ddweyd,
 Na dim i wneyd ond diolch ;
 Mi fyddaf wrth fy modd
 Heb unrhyw rodd ond diolch.
 Er dweyd o'r byd mae ffoledd yw,
 Mae'n hyfryd byw ar ddiolch.

Best of ganders, how I loved him,

Lag! Lag lag! Lag!

Oh I wish I yet could find him,

Lag! Lag lag! Lag!

Wylaf, wylaf am geiliogwydd

Wnaeth ei wraig yn wraig mor ddedwydd,

Gwir i gyd, a dim yn gelwydd,

Lag! Lag lag! Lag!

Now the world hath turned against me,

Lag! Lag lag! Lag!

No good husband to protect me,

Lag! Lag lag! Lag!

Ofnaf bellach ddynd a llwynog,

Ci a chath ac ysgyfarnog,

O na welwn fy nhywysog,

Lag! Lag lag! Lag!

Wheresoever we were moving,

Lag! Lag lag! Lag!

In the pond, or on a roving,

Lag! Lag lag! Lag!

Pan y gwelwn fuwch neu ddafad,

March, neu ful, neu geiliog hwyad,

Gwasddai ar fy rhan yn wastad,

Lag! Lag lag! Lag!

“DIC SION DAFYDD.”

Feallai y cyhudda Dic fi o anfoesgarwch am na roddwn iddo yr enw Richard Jones Davies, ac yntau

weithian yn ŵr boneddig—yn ol ystyr an-mhriodol y gair.

Yr oedd Dic yn cyfoesi â'r enwogion Cymreig dihoced *Jack o Lanygors*, a *Robyn Ddu o Nantglyn*. Aeth Dic i Lundain, a gwadodd ei iaith, a diystyrododd ei genedl ; gwnaeth Glan-y-gors gerdd iddo yn gwatwar ei goegni, ac yn neillduol ei rodres yn cymeryd arno fethu siarad â'i fam wedi dyfod adref yn ei gerbyd, ac fel y gorfuwyd rhedeg

“ I geisio 'r Person, megis Pab,
I gyfieithu rhwng y fam a'r mab!”

a llawer o ystrywiau eraill gan Dic sydd yn y gerdd genedlgarol hono. Wedi hyny aeth yr enw “ Dic Sion Dafydd ” yn enw cysefin ar bawb a fyddent o egwydd-orion Dic. Eto, yn nghyfnod yr adfywiad cyn y diweddaf a fu ar yr Eisteddfodau, cyhoeddwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin fod Dic Sion Dafydd wedi marw o'r darfodedigaeth, a bu llawenydd mawr. Modd bynag, marw neu beidio, cyfododd Dic drachefn; ac, fel ysbryd wedi adgyfodi, elai i mewn i ddynion yn ddiarwybod iddynt.

Yr oedd Dic yn Eisteddfod Llangollen, y gyntaf yn y cyfnod adfywiol yma, ond nid ymddangosai yn gyhoeddus, canys yr oedd AB ITHEL yno. Yr oedd ystryw newydd gan Dic erbyn hyn ; rhoddai yn mhenau llawer o'n prif ddynion i drin y Gymraeg fel iaith farw, a chymeryd y Saesneg yn iaith ymarferol ; aeth yr ysbryd hwn i mewn i Eben Fardd, a darfu Eben yn yr un

ysbryd ysgrifenu llythyr Saesneg at gyfaill y gwyddai a fyddai yn yr Eisteddfod i ofyn iddo a wnai ddweyd os “*Rhys Benardd*” a enillai y Gadair, mai efe oedd y dyn. Darllenwyd y llythyr ar g’oedd, ac yr oedd yno filoedd na ddeallent ddim o’i gynwysiad ond yn unig yr enw Ebenezer Thomas; a bu hyny yn ddigon, yr oedd y wlad yn hoff o Eben trwy’r cyfan, ac ni chlywais fwy trystio a churo dwylaw erioed. Gadawyd y llythyr heb ei gyfieithu, a da hyny. Buasai yn fwy cywilyddus cyfieithu rhwng y Bardd a’r Wlad, nac oedd cyfieithu rhwng Dic a’i fam.

Nid oes ysgrifenydd rhwyddach a llithrach na Nican-der, ond cymerodd er hyny, fel llawer, ei ddarbwyll- gan Dic na fyddai ei Gymraeg yn ddealladwy heb fritho ei ysgrifeniadau â geiriau Saesneg rhwng crom-fachau, ac felly mae y Gymraeg megis yn farw ganddo, a’r Saesneg yn egluro ei hystyr!

Mae Dic bellach wedi ymhyfhau yn aruthr, ac yn ben yn yr Eisteddfodau. Bum un diwrnod yn Eisteddfod Aberystwyth; pan aethum i’r pwyllgor y boreu, yr oedd Dic ar ei draed yn benaf gwr, yn traddodi yr araith agoriadol yn nghorffolaeth dim llai dynsawd na Pheriglor Nedd, un o’r dynion dysgedicaf a pharchusaf a fedd ein gwlad. Wedi iddo eistedd, cyfododd Nefydd, yn llawn o aedd gwladgarol, a chynygiodd ar fod gweithrediadau y diwrnod hwnw i gael eu dwyn ymlaen yn gwbl yn Gymraeg. Gwrthwynebwyd ef yn egniol gan bleidwyr Dic, ac aeth Dic i mewn i Nefydd ei hun, a chafodd ganddo ddweyd, yn llawn moesgarwch Dic-

siondafyddawl, “*I beg to withdraw my proposition!*” Wedi hyny, ar yr Orsedd, Dic oedd ben yno! Yr oedd dwy “Eos Cymru” yn ymrafaelu am yr un enw, a chynygiodd Dic yn enw Pencerdd Gwalia, mewn araith Saesneg danllyd, ar fod i un o’r ddwy gymeryd yr enw “*Seren Cymru*,” a rhag nad oedd y Cymry yn deall hyny o Gymraeg, dywedai gyda phwys teilwng o’i urddas, “*Star of Wales.*” “Surely you cannot object to that.” Wfft i Dic!

Rhai dyddiau wedi hyny, yr oedd y gludres yn sefyll wrth safle Ynys Faig, ac yr oedd yn un o’r cerbydau eneth, ac arni eisiau gwybod a oedd y ffordd hono yn arwain i’r Abermaw, a meddyliodd y dylai ofyn hyny yn Saesneg, a hithau yn ei cherbyd, ac ni wyddis nad yn yr Eisteddfod y dysgodd hyny o Saesneg oedd ganddi, a dyma fel y gofynodd, “*Is this station going to the Barmouth?*” Buasai Cymraeg “tân mawn a chanwyll frwyn” Caledfryn yn well iddi na’r Saesneg yna.

Yn ddiweddar, pan oedd nifer o gyfeillion yn cyd-fyned i Aberdyfi, heibio’r Drefnewydd (ger Towyn), sylwai un ar weithrediadau meddiannwyr cloddfeydd Bryn-yr-Eglwys, a dywedai, gyda llaisbwys anarferol, “Mae’r rhai’n yn gwneyd pethau *nice*, maent yn eu gwneyd yn *systematical*, maent yn eu gwneyd yn *beauty.*” Ni fuasai waeth iddo ddweyd ar unwaith fod y gwaith neu y gweithiau yn *nice systematical beauty*; ond beth a wnaethai y Cymry yn ein plith ni, yr amaethwyr, o’r ymadrodd yna? Ni feddant un syniad am *nice* mwy nac fod ambell hen fuwch yn *nice* ar ei bwyd, pan fyddo yn gomedd bwyta

pobpeth a roir o'i blaen. Ond am *systematical*, gwarchod ni! dyna air digon i ddychrynu llygod; ond buasai yn hawdd deall beth a feddylid pe dywedasai fod y gweithiau yn cael eu gwneyd wrth *reol à threfn*. Eto y cwbl a wyddent am y gair "beauty" yw ei fod yn enw ar ambell fuwch, nid gymaint bob amser am ei bod yn fuwch hardd; pan fyddo un yn dlysach nac arall, Tlysen y gelwir hi, fel y dywedir Cochen am fuwch goch; ond fe roddodd Dic ryw syniad rhyfedd o goegaidd yn eu penau am y gair *black*; pan fyddo llo bach, neu oen bach, du iawn, "Mae o yn ddu *black*," meddant, fel pe byddai *black* yn dduach na du! Clywais hefyd am "*whitewashio* yn gôch."

Yn yr un ysbryd hefyd ä Dic weithiau i mewn i feirniaid ein cymdeithasau llenyddol, a chwedi edrych dros y cyfansoddiadau, a rhifo y gwallau, &c., yn cael eu goglais gan ysbryd Dic, nodant â phwyntil yn niwedd pob cyfansoddiad "*20 mistakes, 30 mistakes, 50 mistakes,*" &c., fel y byddo yr amgylchiad, ac felly triniant hwythau y Gymraeg fel iaith farw, a chymerant y Saeson-aeg yn iaith ymarferol.

Medr Dic fod hefyd mor rith sancteiddiol a myned i mewn i ein dysgawdwyr crefyddol. Nid oedd Cymro braidd mwy aiddgar dros ei iaith a'i wlad na'r diweddar Mr. Morgan, o Lanfyllin. Unwaith yn Nhowyn, pan yn pregethu yn llawn hyawdledd ar yr angylion yn cyd-folianu â'r gwardigion, ac yn gwaeddi, "Teilwng yw, &c." golygai yr angylion yn deulu "*disinterested*" yn y gwaith. Nid oedd deg yn y capel a ddeallent yr estron-

air hwnw, *disinteresteâ*. Meddyliai rhai fod y pregethwr yn golygu mai *dissenters* oedd yr angylion, a gwawdiai ein cyfeillion o enwadau gwahanol ef am ei ryfyg sectyddol yn golygu yr angylion sanctaidd o'r un sect ag ef ei hun! Ond cyrhaeddodd Morgan, fel Eben ar ei ol, yn fuddugoliaethus i wlad uwch cyraedd pob twyll a chamgymeriadau. Mae ambell air llithr fel hyn lawer mwy esgusol mewn llefarwyr nac mewn ysgrifenydd, am fod gan ysgrifenydd gymaint mwy o fantais i fesur a phwyso eu meddyliau cyn eu dangos.

Dywedai gwr o fri iddo glywed gan ddysgedigion mai i'r gwenyn y gwnaed yr englyn goreu yn yr iaith, ond fod "Dic" wedi cael lle i roddi un gair estronol ynddo, sef *treio* o'r Saesonaeg *try* : fel hyn,

" Mor wisgi'n gweini mae'r gwenyn,—trwyadl
Yn *treio*'r llysieuyn!
O, gwybodaeth gwybedyn!
Mawl i Dduw, a mêl i ddyn!"

Gofynai a fedrwn i roddi gair yn lle yr estronair hwnw, heb ddrygu y syniad na'r gynganedd. "Na fedraf," ebe finau, "ond medraf wneyd gwell englyn o ran iaith a syniadau, achefyd lawn cystal o ran cynganedd;" "Chwi fedrwch?" "Medraf." "Sut?" "Fel hyn, nid trwy eu gwybodaeth y mae y gwenyn yn hela mêl i ddyn, ond dyn sydd yn ei drawsfeddiannu!"

Gwybodaeth ni fedd gwybedyn—na dysg,
Ac nid oes i bryfyn

Un addoliad i'w ddilyn,
I foli Duw fel y dyn.

“Dyna *wir*,” ebe yntau, “dychymyg oedd y llall.” “*Ar y gwir mae rhagoriaeth*” ebe finau.

Ni wnaethum ond cymeryd y gair *treio* yn yr ystyr a roddai fy nghyfaill iddo, yr un a *to try*, profi a fyddai mêl yn y llysieuyn. Llythyreniad y gair yn yr ystyr hyny fuasai *tryio*, ac nid *treio*. Y mae *treio* yn Gymraeg pur, ac yn cael ei le yn briodol yn yr englyn,—o *traï* y mae yn deillio, ac os bydd y llysieuyn yn llawn mêl, ä yn drai arno yn fuan ar sugniad y gwenyn. Dyna yw *treio*, ac felly mae yr englyn yn wreiddiol dda o ran iaith.

CANU.

Nid dim gwyrth oedd yn peri i'r ysbryd drwg gilio oddiwrth Saul pan fyddai Dafydd yn canu.

Gwlad y gân yw y Nefoedd; ac y mae pawb o drigolion y ddaear sydd âg ysbryd y nefoedd ynddynt yn hoffi canu. Y mae canu yn gyru pob ysbryd drwg i ehedeg o'r ffordd. Y mae canu yn toddi y galon greulonaf, ac yn gwneyd y sarph wenwynig yn ddiniwed fel y golomen. Y mae canu yn iechyd i'r enaid, ac y mae canu yn cryfhau y meddwl i'r un graddau ag y

mae awelon iachus mynyddoedd Cymru yn cryfhau y corff.

Ond pa beth am ganu a barddoni ynghyd?
 Gyrai hyny bob prudd-der a chwerwder o'r byd!
 Byddai holl deulu adfyd, a gwynfyd i'w gwedd,
 Yn nofio mewn teimlad o gariad a hedd!



FY WYRION.

“Mi a fum yn ieuanc, ac yr ydwyf yn hen,” eto mae genyf fantais ar yr “hen lanciau,” canys pan elant hwy yn hen, hen a fyddant, ac ni bydd a ofala am danynt, a finau megis yn byw eilwaith ac eilwaith drosodd a throsodd yn fy mhlant a'm hwyrion.

“Llon a llon yw pob awenydd,”
 Llon a llon chwareuai Gwenddydd,
 Tra y gwnai Llywelyn Ieuan
 Siglo'r cryd i Gruffydd Ifan.

Bellach dyma Ifan Owain,
 Fe chwareua'i ran yn gywrain,
 Dengys oes yn myn'd yn gyflym,
 Tra'n cusanu 'i frawd bach Gwilym.

Mae genym sicrwydd cysegredig
 Yn llyfr Duw'n ysgrifenedig,

“ O enau plant perffeithir moliant,”
Nid gwag ganu yw gogoniant.

Mae mawl mewn wylo, mawl mewn canu,
Mae mawl mewn darllen a 'sgrifenu,
Ond y mawl â zel Duw arno
Ydyw *moliant plentyn sugno*.

Cymerwn wers o'r hen orchymyn,
Gosodwn ar ein blaen fachgenyn.
Nid awn ni byth yn ddyrchafedig
Heb fod fel ef yn ostyngedig.

Fe dybia rhai yn eu ffolineb
Mai gyda hwy y trig doethineb,
Y medrant rifo y gorphenol,
A nodi rhanau y dyfodol.

Nis gall holl ddysgedigaeth natur,
Nis gall oes yn llawn o lafur,
Nis gall pob doethineb dynol
Ddal yr amser bach presenol.

Ceisio rhai ymafael ynddo
Yn ei wyneb wrth fyn'd heibio,
Heibio 'r â yn ei wylltineb
Heb ymwrando â'u ffolineb.

Rhaid yw rhedeg fel yr amser,
Neu fe dreulia'r oes yn ofer,

Yn mlaen, ymlaen, yn mhob diwydrwydd,
O nerth i nerth hyd at berffeithrwydd.

Un genhedlaeth a ddychwela,
Cenedl arall a'i dilyna,—
Pob cenhedlaeth gydgyferfydd
Ar ororau'r byd ni dderfydd.

Treiglo mae cyfrolau amser,
Ar y byd, na rown ein hyder,
Colli wnawn ein gafael ynddo.
Colli wnawn ein golwg arno.

Gwelwn fel mae'r oesau'n myned,—
Fel y bêl ar oriwaered!
Pwy mor swrth a'r hwn a gysgo
Pan mae Duw yn gwaeddi "Deffro!"

CANIG Y FAMMAETH.

Hwi lwli, bei babi, bu'n chwareu wrth ei drin,
Hwi lwli, bei babi, mae'n cysgu ar fy nglin;
Mae'n deg fel y rhosyn, eginyn mewn gardd,
Mae'n arlun o iechyd, mae'n hyfryd, mae'n hardd.

Ca'i borthi'n naturiol â llaeth ei fam fach
Heb ddilyn ddrwg gyngor, ffol gredo pob gwrach,

Hwy roddant i blentyn fwyd dynyn mewn oed!
Ni welwyd fwy gwagedd gan wragedd erioed.

Hwy yrant eu canoedd, eu miloedd, a mwy
I afael afiechyd, a chlefyd a chlwy,
Ac yna hwy ganant â'u tant yn gytun,
“*Yr Arglwydd a'u galwodd i'w drigfan ei hun!*”

Mae'n dda fod trugaredd yn *derbyn* y gwan
A fwrir i farw, gan drefnu ar ei ran.
“*Ei alw*” sydd esgus,—air parod wrth law
I dwyllo'r gydwybod, am angau pan ddaw.

Cwsg, cwsg, yr un anwyl. Mae engyl y nen
Yn gw litho bendithion y nef ar dy ben.
Mae'r ddaear a'r entrych â'u llewyrch yn llon,
Neb, neb, nid oes yma a friwia dy fron.

Y CARCHAR.

*Ar fore genedigæth fy ŵyr cyntaf, rhoddwyd fi i eistedd
wrth fwrdd, papyr, ink, a phan o'm blaen, cader bob ochr i
mi, ar y rhai yr eisteddai cyfeillion fel nad elwn oddiyno
heb ysgrifenu penill neu englyn ar yr achlysur. Ysgrifen-
ais inau fel hyn :—*

Wyf yma yn garcharor rhwng dau
Heb obaith rhyddhad nes cael englyn,

Gan hyny mae'n well ufuddhau,
 Wyf heddyw yn Daid i Llewelyn!
 Ond "englyn neu benill 'waeth pr'un,"
 Mae rhyddid i'r bardd gael ei ddewis :
 Yn hyn mi foddlonaf fy hun,
 Wyf lawen o eni fy Lewis.

Yna pawb yn foddhaol,
 A finau yn rhyddhaol.

DAFYDD LLWYD.

Mae Dafydd Llwyd yn faban hardd,
 Nid oes a feiddia wadu :
 Mae rhai yn dweyd y daw yn fardd,
 Peth allai fod yw hyny.
 Duw roddo ras i'r bachgen clws,
 Beth bynag fyddo 'i foddion,
 A'r nef dan wenu yn agor drws
 I dywallt ei bendithion.

Ei dad a'i fam yn llon'd ei swydd
 Athrawon rhwydd y teulu •
 Yn arwain llu yn ffordd y nef
 Dan faner crefydd Iesu.
 Ymlaen, ymlaen, heb ofni'r groes,
 Nac unrhyw loes o'i herwydd
 O nerth i nerth trwy werth yr Iawn
 I'r wlad sy'n llawn llawenydd.

IFAN LLEWELYN.

Fy Ifan Llewelyn ! fy maban hoff yw,
 Ac engyl y nef yn ei wyllo :
 Fy Ifan Llewelyn a roddwyd gan Dduw
 Caf finau ei fagu ef iddo.
 Fy Ifan Llewelyn ! “ tangnefedd i ti ”
 Yw'r fendith sydd eto'n dy aros,
 Cwsg, cwsg, fy un anwyl, dy fam ydwyf fi,
 Nid oes yma elyn yn agos.



MYFANWY WYNONA.

Myfanwy Wynona sydd flodyn mor hardd,
 Ar fil o rosynau'n rhagori ;
 A hoff gan brydyddion roi molawd i'r ardd
 Lle mae'r fath brydferthion yn tyfu.
 Dyfalant a fynont am degwch y byd,
 A phob peth is haul sydd weladwy ;
 Diflanu o'm meddwl wna'r cwbl i gyd,
 Fy nghân yw Myfanwy ! Myfanwy !

Myvanwy Wynona ! my innocent child,
 Protected by angels above thee.
 Myvanwy Wynona ! So heavenly mild,
 So dear, how dear I love thee !

Thy name hath been written in heaven on high,
 My cherub, Myvanwy Wynona,
 No danger whatever, thy mother am I,
 Lull on *y wen anwyl* Wynona.

THOMAS VINCENT.

Boed tymor bywyd Thomas
 Yn gryf yn mhrydferthion gras,
 A nef a daear i'w nawdd
 Ga Vincent yn gyfansawdd,

IEUAN ELIOT.

Ieuan Eliot anwylaf,—Ieuan ddaw
 Yn ddyn galluocaf;
 Parod iddo prydyddaf,—yn bendant
 Ei hedd a mwyniant a hawdd ddymunaf.

ERIE.

Y fyw Erie, fy wyres,—byd a nef
 Boed ei nawdd a'i hachles;

Gwenau ein Ior fo'n gynes
Ar riwiau llawr er ei lles.

WALTER CARADOC.

Nid gwelltyn ydyw Gwallter,—gŵr a ddaw
Yn gawr-ddyn mewn amser ;
Yn Caradoc ceir hyder,—duwioldeb
Yn dal undeb cyfundeb cyfiawnder.

T O W E N A.

I Towena tywyned,—gwres a nawdd
Gras y nef i waered ;
Boddio ei rhiaint bydded
A Christ yn arwain ei chred.

R H W Y M Y N P R I O D A S.

*Byddwn yn fynych yn gwneyd englyn neu benill dros gyfaill
ar achlysuron neillduol, oni byddai i sefyll cystadleuaeth.
Mewn cystadleuaeth dylai pob un sefyll ar ei wadnau ei hun,
onide byddai fel un a satai ar draed-fachau, ac a dderbyn-
iai glod am fod yn dalaf o'r cwmni.*

*Ar briodas y aiweddar Mr. Robert Jones (Robyn Awst), Ffer-
yllydd, ysgrifennai fel hyn dros Mr. Thomas Edwards :—*

My friend, poor Robyn, he is married at last
To the hymenian altar he is chained and made fast ;

May heaven protect him and be his safe guard,
To bless and to prosper the praiseworthy bard.

As for me to be tied to an altar or tree
I shall not condescend, for I love to be free.

*Mi wela 'n fy Meibl heb edrych ymhell,
Os da yw priodi mai peidio sydd well.*

DRACHEFN, YR ATEB DROS ROBIN.

Every link in the chain I am tied with is love
And what in the world so enchanting?
The highest of virtues in regions above,
And to me it surpasseth describing.

Pe meddit, fy nghyfaill, fath gadwen a hon,
Byddai hoff gan dy galon ei gwisgo,
Hi greai lawenydd wrth chware ar dy fron
A gwelit mai *dodwydd dy rwymo.*

ENGLYNION PRIODAS.

1

Un twym yw Ioan Thomas—a'i wraig lon
Rhai glanaf eu hurddas :
Pur ydyw rhwym priodas
Gwedi ei greu gyda gras.

Dau lanwyd o oleuni :—Ior o'i ras
 Ar eu rhan yn gweini.
 Dau angel i'n hawel ni,
 Dau luniwyd o haelioni.

Eto fy serch ddaw atynt,—oherwydd
 Mae hiraeth bod hebddynt :
 Na fydded anaf iddynt,
 Neu echrys wedd, na chroes wynt.

Dau DDEDWYDD, dau dda ydynt,—angylion
 Yn fy ngolwg oeddynt,
 Doniau y nef adwaenynt,
 Treiddia gwir rinwedd trwyddynt,—Rhad yn dod
 Yn eu diwrnod, yn gawod arnynt.

Y BEDD.

Defnyddiais yr orgraff a arferid yn y canrifoedd blaenorol
 mewn rhai geiriau yn y cywydd hwn, er mwyn cadw y
 cymeriad geiriol sydd yn rhedeg drwy y prif odlau.

Yn astud bum yn eistedd,
 Orig fach ar gareg fedd ;
 Meddyliais am ddialedd
 Chwerw bant a chaerau y bedd.

Rhyw adwyth dianrhydedd
 Wedi byw ydyw y bedd :
 Myn'd sydd raid i'r llaid llwydwedd,
 A chau'r byd yn ngharchar bedd !
 Dyna naid yn dwyn nodwedd,
 A dyna fyd yn ei fedd !
 Oll yr un o'u llawr anedd,
 Dewrion byd eu rhan yw bedd.
 Y balch ar dir anwiredd
 Iselir, bwrir i'r bedd,
 Dyna adyn dinodedd
 Fel y balch yn ngafael bedd.
 Pawb yn gytun yn unwedd
 Orweddant ar bant y bedd.
 O drymfyd oerfyd arwfedd,
 Nos y byd yw naws y bedd.
 Rhyw d'wllwch oera dullwedd
 Heb oleu boreu yw bedd :
 Daearol dŷ i orwedd,
 Caeadfwth yw bwth y bedd
 I'r corffyn priddyn pruddedd,—
 Enaid fyth nid ä i fedd.

Onid oes, enaid dwysedd,
 Godiad byw o geudod bedd ?
 Raid aros (O ! rwyd oerred
 Och !) byth yn machau y bedd ?

Er danfon dyn i'r dŷnfedd,
 Cyfyd i ail fyd o fedd.

'E glywa udgorn gloewedd
 Yn galw, er ei farw, o fedd.
 Duwiolion, rai diwaeledd,
 Flaenorant o beiriant bedd
 I deyrnas lân gadarnedd—
 Tŷ ni bo mynwent na bedd.
 Coronau gânt—cywreinwedd—
 Uwch caerau barau y bedd,
 Yna ninau yn unwedd
 Gyda'u bod yn gado bedd,
 Newidir ein holl nodwedd (1 Thes. iv. 17)
 At fywyd uwch byd y bedd.
 Byd angylion gogonedd
 Byd y byw na raid bod bedd.

Tu arall ddrygwall ddreigwedd
 Drwg ddynion bydro'n y bedd.
 Daw arswyd Duw a'i orsedd
 Ar bawb pan ddeuant o'r bedd ;
 Dymunant fod, a'u nodwedd
 Diras, byth o fewn drws bedd !
 Ond yn noeth i'r farn ddoethedd
 Ant bawb wynebant o'u bedd.
 Duw a bâr, heb drugaredd—
 Ewch i warth o barth y bedd
 I'r rhenc dân, a rhinc danedd—
 I gethin bwll gwaeth na bedd.

Iesu gwiw, cyn ein diwedd,
 Tyn bawb cyn eu toi 'n y bedd ;
 G

Dan dy sêl a'th ymgeledd
 Cyn myned dan bared bedd,
 Nid ofnwn niweid dyfnedd
 Y ffwrn boeth uffern, na bedd,
 Ond ni ganwn dôn geinwedd
 Yr ail fyd—*Ffarwel* i Fedd!

Medi, 1822.

B L O D I O N Y B E D D A U .

1.

Aed a fi, dros enyd fach,—i ro bedd
 O awyr byd afiach :
 Yn awelon anwylach
 Y Nef mi fyddaf yn iach.

2.

Drych yw y Bedd, edrychwn,—a diau
 Ein diwedd ganfyddwn :
 Goleu yw ffydd lle gwelwn—dŷ ein Tad,
 Ac yn nerth galwad ein Ceidwad codwn.

3.

Yn y drych iawn edrychwch,—gwg a bodd
 Gwâg y byd a welwch,
 Da gweled diogelwch
 I'r enaid, uwch llaid a llwch.

4.

Er uchder a dyfnder dysg,
 Sylweddol seiliau addysg ;
 Er graddiad teg o'r gwreiddyn,
 Grisiau 'r bedd yw diwedd dyn.

5.

Gyda hoen gwedi huno,—heb boen dwys,
 Heb un dim i'w blino,
 Daw 'r saint i lawn fraint y fro
 Na sonir am nos yno.

6.

Er bod nos i'w aros o
 Fel eraill i falurio :—
 Yn y Nef ein hanian ni
 A lenwir o oleuni.

7.

Buan o flinder bywyd,—y nofiais
 I nefawl ddedwyddfyd
 Mynedfa i mewn o adfyd
 I gân a mawl. Gwyn 'y myd.

8.

Y ddau hyn a ddihunant ;—Golud mwy
 Gwlad y nawl feddianant
 Yno wylo ni welant :—Plant Sion
 Yn wir fawlyddion a orfoleddant.

9.

Llawn mwyniant, nwyfiant nefawl,—llawn o ras
 Oll yn rym atdynawl ;
 O ddrygfyd i fyd o fawl
 Hwyl ddygwyd yn fuddugawl.

10.

I wlad arall loew dirion,—man ni â
 I mewn neb marwolion,
 Hi laniodd ar olwynion
 Cu rad ras—Cariad yr Iôn.

11.

Hwn ydoedd yn henadur—a gwiredd
 Yn goron ei natur ;
 Ei Dduw 'n ben a'i weddi 'n bur
 A'i daliodd ynmhob dolur.

12.

Cu dad gwir wastad Gristion oedd Gruffydd
 Gwr hoffus o galon ;
 Y gair fu iddo 'n goron—trwy 'i fywyd
 Fu 'n oreu hefyd o fewn yr afon.

Pan yn ymchwydd yr Iorrdonen
 Rhodda'i law ar Feibl Duw,
 “ Dyma 'n nghysur,” meddai 'n llawen,
 “ Dim ond hwn, fy mywyd yw !”

13.

I oleuni 'e laniodd : o niwliau 'r
 Anialwch aeth trwodd,
 At Iesu a'i tywysodd
 Aeth i fyw.—Mae wrth ei fodd!

14.

Byth ni chiliai led y blewyn
 Pan gyfodai storom gref,
 Cilied cyfaill, gwawdied gelyn,
 Fel y graig y safai ef.

Tan ei fron yn fyw cartrefai
 Rhyddid eglwys, gwlad, a dysg,
 Trais a gormes wrthwynebai
 Tra 'r arosai yn ein mysg.

15.

Aeth i mewn i waith y mawl,—a'i gân yn
 Ogoniant tragwyddawl,
 Angel bach—gwynach na gwawl,
 Gwir degwch gwaredigawl.

Buan o dònau bywyd—daearawl
 'E diriodd i wynfyd,—
 Iach ehedfa uwch adfyd,
 A'i gân yn foliant i gyd.

Ei riaint, ei frodyr, a'i chwaer anwyl iawn,
 Nyninau 'n mhen enyd, y gwynfyd a gawn,

Na weler ni 'n wylo, mae 'n huno mewn hedd,
Ffordd dawel o flinfyd i'r bywyd yw 'r bedd.

16.

Rhobert fu ddiarhebawl—o wastad
Fel Cristion bucheddawl ;
Gair Duw fu ei grêd a'i fawl,
A'i foddion tangnefeddawl.

17.

Fy anwyl anwyl Iesu Grist,
O edrych arnaf, faban trist,
Ond imi gael dy wenau di,
Yn llawen iawn y byddaf fi.

Er bod heb fam, er bod heb dad,
Er bod ymhell ymhell o'm gwlad,
Ond imi gael dy gwmni di
Yn llawen, llawen byddaf fi.

18.

Yn eu beddau ni byddant,—yn nerth Iôn
A'i wyrth Ef cyfodant,
Ac i'w enw y canant,—mor ddedwydd !
Byw 'n dragywydd ar gynydd gogoniant !

Hoff wlad atdyniad tanau,—beirdd y Nef
Beraidd nôd yn chwarau,
Ydyw 'r fan ddiderfynau
Mewn hedd yr awn i'w mwynhau !

19.

Y mae twrf am y terfyn,—ond i mewn
 Nid ä mwy lais gelyn,
 Mae 'n agor ei ddôr i ddyn,
 Clai ydyw yn cloi wed'yn.

20.

Yn Iesu a hunasant, i gadw gwyl
 Gydag Ef cyfodant ;
 Un dolur na chur ni chânt—
 Nefoedd yno feddiannant.

21.

Pan ddaw ar ol pennduad—oleu mwy
 O Haul mawr Datguddiad,
 Arwydd yw hyn o ryddhad
 Cofnodi cyfnewidiad.

Yna byddwn o'n beddau—ar nifer
 Y nefawl ororau ;
 Ac ar heulawg orielau
 Ein tanau hedd yn tynhau.

22.

Ar ymadawiad fy merch, Ebrill 16, 1875.

Ow, ofid dwys! O fyd o wae!
 Nid yma mae dedwyddwch ;
 Edrychwn fry! mae tŷ ein Tad
 Yn ngwynfa, gwlad dedwyddwch ;

Er gweled hyn, a'r golud hael,*
Rhaid marw i gael dedwyddwch !

Y BYWYD NEWYDD.

Ein Haul yn awyr ein hoes,—a'n Lleuad
Yn llewyrca i'r fer oes,
Ydyw grym bywyd y groes
I oleuni ail einioes.

Dyna i awen dŷ newydd,—palas Iôr
Pa le sy' mor ddedwydd ?
Llawn yw o Dduw—oll yn ddydd—
Ail einioes o lawenydd.

Pob cysur heb fesur fydd.—Dim blino
Mwy nag o wylo 'n hwy am ein gilydd.

FFYDD A GYNAL Y GWAN.

*Y daearol yn diflanu,
A'r nefol yn ymeangu.*

Gristion gwan yn nyffryn adfyd,
Cwyd dy groes, a gwêl dy FYWYD,

CRIST yn bobpeth a fydd yno,
Ninau fyddwn debyg iddo.

Tebyg hefyd i'r angelion
Ond ein bod yn gwisgo coron,—
Pawb yn un heb ymwahanu,
Neb yn elyn,—pawb yn canu.

Hyfryd, hyfryd fydd teyrnasu
Heb un gelyn yn gormesu,
Pan y cauir pob trawsineb
Yn ngwlad anghof tragwyddoldeb.

Dedwydd yma yw 'r gyfeillach,
Yno bydd yn fil dedwyddach,
Cariad leinw ein serchiadau,
Heb adnabod ymraniadau.

Gwel'd a gawn yr anweledig,
Yn yr oes ddi-ddiflanedig,
Duw yn Nghrist y sydd i Gristion
Eisoes yn fil mwy na digon.

Pwy ni hoffai fywyd Cristion?
Pwy ni charai wisgo 'i goron?
Pwy ni chanai pan y gwelo
Nef yn etifeddiaeth iad?

Y B E D D A N O S .

Er cofiant am ein hannryliaid ymadawedig.

Wedi nos y dyneswn i 'morwedd,
 Ac fel y marw cysgwn ;
 Wedi bedd heb wel'd byddwn,
 Heb glywed, siarad, na swn.

Tawel fan, tra chyfanedd
 Yn hanes byd yw Nos Bedd,
 I bwy bynag bu bonedd,
 Diwedd ei bwnc ydcedd bedd ;
 O fan i fan, heb anedd,
 Dyna i hawb dŷ yn y bedd,
 Heb edrych o ba oedran
 Pob un fydd, pawb yn ei fan.
 Ca ireiddlanc orweddle—
 Hen a llwyd, hwn yw eu lle.
 Iselwedd anedd un-nos,
 Heb ganwyll yn nhywyll nos,
 Ein llafur a'n holl ofid
 Ni chofir, llethir pob llid.
 Nid yw 'n cariad yn curo,
 Adwaen y glyn, mac dan glo !
 Ond beth ! Pa beth am y byd,
 Ail wynfa o lawenfyd !
 Gwaelion y beddau, gwelwch
 Olud y lle o wlad llwch ;
 Clywch y nôd ! sain clychau Nêr,
 Hon yw odfa ein hadfer !

Arwydd o hedd yw rhyddhau
 Gollyngir gallu angau.
 Pob un o'i gynhun a gwyd
 O gell angau gollyngwyd.
 Y fath olygfa ni fu,
 Ffôl obaith cyffelybu ;
 Holl lu Nef a'u llaw i ni,
 Glaniad yn myw goleuni !
 Daw Iesu yn Dywysydd
 Ei enw a'i fawl yn un fydd,
 Llyw i uno llawenydd
 A Haul Duw yn oleu dydd,
Ni ddaw yna un ddunos—
BYDDWN HEB Y BEDD A NOS !

TORF O DDYCHWELEDIGION.

Miloedd, eu dagrau moliant,—i'r golwg
 O'r galon dywalltant,
 Am fawredd grâs myfyriant,
 Cariad yn Nuw, **CREDU wnant.**

Duw Ion yn dwyn dywenydd—i'r enaid
 Wna'r einioes yn ddeddydd,
 Emyn o fawl o mewn fydd,
 Dyna rât!—Duw'n Waredydd !

Y B E I B L .

Gair ein Naf,—y gwir nefawl,—
 “Credo” Duw! cariad di-dawl,—
 Y safon a sai’ hefyd
 Yn nydd barn—yn niwedd byd !

“GLYN CYSGOD ANGAU.”

“*Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf nined.*”—
Psalm. xxiii. 4.

Llewyrchiad o Galfaria fryn
 Oleua’r glyn tywyllaf,
 Gan nad yw angau ddim i fod
 Ond cysgod, pa’m yr ofnaf ?
 Paham yr ofnaf allu’r ddraig ?
 Mae Crist yn Graig dragwyddol,
 Er addef fod y cnawd yn wan,
 Mae ffydd yn anorchfygol.

Y GENI DRACHEFN.

Wedi ein geni oddi uchod
 Am y nef y mae’n myfyrdod ;
 Fel y teimla alltud hiraeth
 Am hoff wlad ei enedigaeth.

MARW I BECHOD AC ADGYFODIAD BYWYD.

Wedi unwaith farw i bechod,
Byw i Dduw yw'r byw i ddyfod;
Teimlwn yn ein cyfansoddiad
Flaenffrwyth byw o'r adgyfodiad.

RHWYSTRAU YN DIFLANU.

Pwy ydwyt ti, y "mynydd mawr"?
Ti ddoi i lawr yn fretyn,
Gerbron Zorobabel nid wyd
Ond fel y llwyd ddilledyn!

Fel hyn gwna Duw y rhwystrau dardd
O'n blaen, yn ardd Baradwys;
Hawdd eu goresgyn, os bydd raid,—
Mae Crist yn blaid i'w eglwys.

YR ADENEDIGAETH.

"Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd."—
2 Cor. v. 17.

Gall fod y dyn yn hen bechadur
Ond nid yw mwy yn hen greadur :
Yn ngrym y cyfnewidiad dedwydd
Y mae efe'n greadur newydd.

EMYN FILWROL.

Mae ein harfau yn ysbrydol,
 Bywiol, nerthol, drwy ein Tad,
 Buan byddwn yn fuddugol
 Ar yr holl elynol hâd;

Syrthia cestyll annuwoldeb,
 Bro marwoldeb fydd eu rhan,
 Seion dan fanerau'r fyddin
 Crist yn Frenin ymhob man.

Y GLANIAD DEDWYDD.

Pwy ofnaf?—Pwy?—mae un o'm plaid
 Rydd nerth wrth raid lle 'rwyf yn wan.
 Mae ffydd yn gref, mi glywaf alw
 O'r afon arw,—“I'r lan! i'r lan!”
 Gwyn fyd! gwyn fyd fy mywyd mwy!
 Heb arnaf glwy na neb yn glaf,
 Dim nos na gauaf fyth ni fydd,
 Tragwyddol ddydd! tragwyddol haf!

THE HAPPY LANDING.

Tho dark the night, I have on high,
 Through fear and death, a light so bright!

By strength of faith I hear the cry
 From yonder shore—how bright the light !
 “ Come happy spirit, hasten on,
 “ Thy glory and thy crown are near,
 “ Thy sorrows and thy fears are gone,
 “ Thy bliss shall be eternal here !”

THE DYING CHRISTIAN.

Farewell, farewell this world of woe !
 Thy toys and joys I leave below,
 Father of peace, of grace, and love,
 Provide my happiness above.

Happy forever, evermore
 Happy, and happiness in store.
 The shades of night have passed away,
 Are hurled by rays of endless day !

TEIMLAD Y CRISTION.

Af allan i'r meusydd i wel'd yr ŵyn bach,
 Yn rhedeg, yn chware, ac yn prancio ;
 O gwmpas eu mamau yn ddedwydd ac iach,
 A dim yn y byd yn eu blino.

Bum inau mor ddedwydd yn moreu fy oes,
 Heb feddwl am dywydd mwy garw,
 Ond dedwydd yw 'r Cristion yn codi ei groes,
 A dedwydd yn hen, ac yn marw.

Y CYSUR OLAF.

Llinellau o gyfansoddiad y bardd ar y dybiaeth o rybudd i ymadael o'r Tymawr, trigle ei henafiaid er's oesoedd a chenedlaethau, ar newidiad y perchenog yn 1873.

* * * * *

Er hyn digonedd fydd fy rhan,
 A dewis fan i gael fy nghladdu ;
 Caf yno orphwys hyd yr awr
 A'r alwad fawr i'm dwyn i fyny.
 Yn iach i'r byd, yn iach i'r bedd,
 Yn iach i lygredd, trosedd trawsion ;
 A'r iachaf fro yr uchaf fraint
 Yn un â'r saint caf wisgo 'm coron.

Mor hoff fydd rhodio 'r bryniau ban
 Lle mae trigfanau heddwch,
 Lle nid ces rhwd na gwyfyn chwaith
 Yn llygru gwaith prydfferthwch ;
 Lle ni ddaw gofid, ing, na loes,
 Na diwedd oes molianu ;
 Trwy holl ororau'r gwynfyd llawn
 Dedwyddwch gawn feddiannu.

Wedi ein geni oddi fry,
 Nid oes nos i'n haros ni,
 Goleu tŷ ein Tad !
 O ! hyn fydd yn hyfryd,
 Hyfryd, hyfryd, hyfryd,
 O hyn fydd yn hyfryd,
 Crist yn Haul heb fachlud mwy !

Tannau Nef a'u tonau 'n un,
 Moli Duw am alw dyn—
 Gras yn gân i gyd !
 O hyn fydd yn hyfryd,
 Hyfryd, hyfryd, hyfryd,
 O hyn fydd yn hyfryd,
 Byw yn ngwlad tragwyddol ddydd !

Gogoneddus fydd y wledd,
 Telyn aur a'r Salmau hedd,
 Cydgan Calfari !
 O ! hyn fydd yn hyfryd,
 Hyfryd, hyfryd, hyfryd,
 O ! hyn fydd yn hyfryd,
 CARTREF, HEB YMADAEL MWY !

* * * * *

Born of Heaven my rights are free,
 Night will never hinder me,
 God is light to all ;

O! this will be joyful,
 Joyful, joyful, joyful,
 O! this will be joyful,
 Christ is Sun for evermore!

Heavenly chords in harmony,
 All melodius glorious glee,
 Grace in grace abound!
 O! this will be joyful,
 Joyful, joyful, joyful,
 O this will be joyful,
 Life in land of endless day!

Glory of Glory, praise in praise,
 Harps of gold in brilliant rays,
 Chorus,—Calvary!
 O! this will be joyful,
 Joyful, joyful, joyful,
 O! this will be joyful,
 HEAVEN A HOME,—TO QUIT NO MORE!

* * * * *

Af fel yr wyf, heb oedi mwy—
 Er dued wyf, er maint fy nghlwy'—
 MAE'R GWAED A'I RINWEDD I MI 'N FWY—
 O, OEN DUW,—RWY'N DOD!

DIWEDD.

GWELLIANT GWALLAU.

TUDALEN.	LLINELL	YN LLE.	DARLLENER.
xiv.	24	Pregeth ix. 14.	Pregeth ix. 4.
"	25	2 Peter iii. 15.	2 Peter iii. 18.
17	8	Ameu.	Amheu.
18	23	xiii.	viii.
23	18	ameu.	amheu.
24	1	llwyfrhau.	llwfrhau.
"	13	ameu.	amheu.
"	17	Cymodi'r.	Cymodu'r.
31	4	en	eu.
40	3	"henwadau."	"henwadon."
"	15	Act. iv. 16.	Act. iv. 12.
"	"	1 Cor. i. 10—	1 Cor. i. 10—16
41	8	dyn.	"Dyn."
43	20	nectar.	nectar.
47	14	Ar.	At.
48	13	Da i ddim ond i Ddihawl	Nid oedd hyn ond o Ddihawl
70	18	yn gywrain.	yn bert a chywrain.
71	15	ddysgedigaeth.	ddysgeidiaeth.
83	18	nawl.	mawl.
90	28	odfa.	oedfa.
94	9	ymhob.	ymhob.

Dolgellau :
Argraffwyd gan D. H. Jones.

